

# 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol CDLI Caerdydd

Hydref 2019



**Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd**  
**3<sup>ydd</sup> Adroddiad Monitro Blynyddol 2019**

**Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod**  
**1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019**

## **Cynnwys**

	<b>Tudalen</b>
<b>1. Crynodeb Gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>2. Cyflwyniad</b>	<b>8</b>
<b>3. Newidiadau Cyd-destunol</b>	<b>12</b>
<b>4. Proses Monitro'r CDLI</b>	<b>19</b>
<b>5. Dadansoddiad Polisi Monitro'r CDLI</b>	<b>22</b>
• Canlyniad	
• Dadansoddiad	
• Argymhellion	
<b>6. Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd</b>	<b>197</b>
<b>7. Casgliadau</b>	<b>226</b>
Atodiad 1: Tabl yn amlinellu crynodeb o'r canfyddiadau	<b>233</b>

## **1. Crynodeb Gweithredol**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI) ar 28ain Ionawr 2016. Fel rhan o broses y cynllun datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Mae'r AMB yn darparu'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y CDLI, ac yn y pen draw, mae'n penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisiau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor asesu'r effaith a gaiff y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir, a nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.

Hwn yw'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd, ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yr AMB cyntaf ar 31ain Hydref 2017 a'r ail ar 31ain Hydref 2018, a darparodd y rhain waelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol, y gellir ei ddefnyddio i ddangos y tueddiadau sy'n ymddangos mewn AMB'au dilynol

### **Canfyddiadau Allweddol y Drydedd Broses Monitro Blynyddol 2018-2019**

#### **Gwybodaeth Gyd-destunol**

Yn Adran 3, cynhwysir crynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol. Bydd goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol yn digwydd yn ystod y tymor hwy, a bydd yr AMB'au dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

#### **Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi**

Mae Adran 5 yn asesu sut mae polisiau strategol y Cynllun a'r polisiau ategol cysylltiedig yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd, a p'un a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflenwi. Galluogodd hyn y Cyngor i wneud dyfarniad gwybodus o gynnydd y Cynllun wrth gyflenwi'r targedau/ monitro'r canlyniadau a pholisiau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg gweledol o effeithiolrwydd polisiau yn ystod y cyfnod monitro, yn seiliedig ar y raddfa goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad:

<b>Parhau i fonitro (Gwyrdd)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes unrhyw achos i'w hadolygu.	
<b>Angen Hyfforddiant (Glas)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu aelodau.	
<b>Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)</b>	
Gall y dangosyddion awgrymu bod angen darparu rhagor o ganllawiau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn y Cynllun.	
<b>Ymchwil Pellach (Melyn)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, a bod angen ymchwil ac archwiliad pellach.	
<b>Adolygiad Polisi (Oren)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwil ac archwiliad pellach cyn cadarnhau'r penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.	
<b>Adolygiad Cynllun (Coch)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio'n llawn i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun a'i wneud yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.	

## Prif ganfyddiadau

Dyma'r trydydd AMB i'w baratoi ac mae'n darparu cymhariaeth â'r data sylfaenol a ddarparwyd gan yr AMB cyntaf a'r ail, a gyhoeddwyd yn 2017 a 2018.

Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r trydydd AMB ar gyfer blwyddyn 3 yn gadarnhaol, gyda'r mwyafrif o'r dangosyddion yn wyrdd, sy'n arwydd bod y mwyafrif o bolisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae crynodeb o berfformiad yn erbyn prif bynciau'r Cynllun wedi'i nodi isod gydag Atodiad 1 yn nodi'r data a'r casgliadau yn fwy manwl.

**Cyflogaeth** – Dengys y data monitro berfformiad cryf parhaus. Mae'r data sy'n ymwneud â chreu swyddi net yn arbennig o bwysig - mae angen 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly mae'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yn 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi bod yn

cynyddu'n gyson ac mae'r AMB diweddaraf yn dangos cynnydd o 6,000 o swyddi ers Ebrill 2018.

**Tai** – Dengys y data monitro bod cartrefi newydd bellach wedi dechrau cael eu cwblhau ar lawer o Safleoedd Strategol y CDLI. Yn benodol, mae anheddau newydd wedi eu cwblhau ar 3 o'r Safleoedd Strategol.

- Cwblhawyd 511 o anheddau ym Mhentref St Ederm (ychydig yn is na'r targed 515 sydd wedi'i gynnwys yn yr AMB);
- Cwblhawyd 167 o anheddau ar safle Strategol Gogledd-orllewin Caerdydd, sydd â thri allfa ar wahân gyda mwy ar y gweill yn y dyfodol agos
- Cwblhawyd 51 o anheddau ar safle Strategol Gogledd-ddwyrain Caerdydd ac mae gwaith adeiladu ar y gweill yn Churchlands.

Er bod y cyfraddau hyn yn is na'r targedau a nodwyd yn yr AMB, mae'n amlwg bod y dull a arweinir gan y Cynllun bellach yn dechrau gyrru cyflenwi cartrefi newydd yn llwyddiannus ar lefel na welwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r 1,444 a gwblhawyd yn 2018/19 (43% yn uwch na 2017/18) yn cyferbynnu â'r 9 mlynedd flaenorol lle'r oedd y nifer a gwblhawyd ar gyfartaledd yn 725 uned y flwyddyn, heb unrhyw flwyddyn yn uwch na 1,000 o unedau dros y cyfnod hwn.

Mae'r data ar gyflenwi tai yn dangos yr 'oedi' rhwng mabwysiadu'r Cynllun a chwblhau cartrefi ar safleoedd newydd a ddyrannwyd yn y Cynllun. Oherwydd cyfuniad o gydosod safleoedd, ffactorau cyfreithiol a logistaidd a brofir gan dirfeddianwyr/datblygwyr ynghyd â'r amser sy'n ofynnol i sicrhau'r cydsyniadau cynllunio a mabwysiadu angenrheidiol, mae trywyddau cyflenwi yn arafach nag a dybiwyd yn wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys amser a dreulir yn sicrhau'r Cytundebau Adran 106 sy'n cyd-fynd â chyflawni dyheadau'r Cyngor yn llawn fel y nodir yn y CDLI. Yn gyffredinol, dros y 13 blynedd rhwng 2006 a 2019, adeiladwyd cyfanswm o 16,521 o anheddau newydd yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 40% o'r gofyniad anheddau cyffredinol.

Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi cychwyn, neu ar fin cychwyn, yn y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol fel y nodwyd yn null uwchgynllunio a chynllunio seilwaith y cynllun, ac felly disgwylir y bydd y tai a gwblheir dros y 7 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol.

**Tai Fforddiadwy** - O ran cyflenwi tai fforddiadwy, mae'r cynllun yn gosod targed i gyflenwi 6,646 o unedau fforddiadwy i'w darparu am y 12 mlynedd rhwng 2014 a 2026, gyda tharged dros dro yn yr AMB i ddarparu 1,942 o anheddau fforddiadwy erbyn 2019.

Dengys y data monitro bod 1,082 o unedau fforddiadwy wedi'u cyflenwi yn 2019 sy'n cynrychioli 25% o'r unedau a gwblhawyd yn gyffredinol. Er bod hyn yn llai na'r targed rhifiadol, fel yr amlygwyd uchod, mae'n adlewyrchu cynnydd arafach na'r disgwyl yn y dyraniadau tai strategol a gyflenwir. O ystyried y cyfraddau cyffredinol isel o unedau a gwblhawyd dros y blynyddoedd blaenorol, byddai'n afrealistig yn yr amgylchiadau hyn i ddisgwyl unrhyw gyfraniad tai fforddiadwy sylweddol uwch, sy'n anochel yn adlewyrchu canran o'r nifer gyffredinol a gwblhawyd. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi cychwyn, neu ar fin cychwyn, yn y rhan fwyaf o'r

safleoedd tai strategol fel y nodwyd yn null uwchgynllunio a chynlluniau seilwaith y cynllun, ac felly disgwylir y bydd y tai a gwblheir dros y 7 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol.

**Trafnidiaeth** - Mae'r data a gasglwyd mewn perthynas â theithio trwy ddulliau cynaliadwy yn adlewyrchu'r amrywiadau a welwyd yn y tueddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf. Dengys hyn bod tueddiadau teithio cynaliadwy wedi parhau i gynyddu dros y 10 mlynedd diwethaf o ran gwaith a siopa, ond bod y tueddiadau'n dangos gostyngiad bach o ran hamdden ac addysg.

Bu canlyniad cadarnhaol mewn teithio cynaliadwy dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chynnydd targed 1% wedi'i gyflawni i bob pwrpas teithio, a thwf sylweddol wedi ei nodi yn achos teithiau i'r Gwaith (+5.3% newid moddol). O ran dulliau teithio cynaliadwy, gwnaed cynnydd sylweddol o ran cyrraedd targedau beicio i bob pwrpas teithio, gyda beicio i'r gwaith yn benodol wedi profi twf sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (+3.7%). Mae'r defnydd o drên wedi dirywio ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer gwaith ac addysg ond mae'r duedd 10-mlynedd yn dangos cynnydd sylweddol. Cynyddodd cerdded dros y flwyddyn ddiwethaf i bob pwrpas teithio gyda thuedd gyfnewidiol yn y tymor hwy. Mae defnydd bysiau wedi lleihau ar gyfer addysg, siopa a hamdden, gan adlewyrchu tuedd ar i lawr yn y tymor hwy.

Ar y pwynt hwn, heb gyflwyniad sylweddol o dai newydd a darparu cefnogaeth i seilwaith trafndiaeth gynaliadwy, cam cynnar cyflenwi'r Metro ynghyd â gweithredu parhaus mentrau ehangach y Cyngor, mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant o ran cyflenwi polisi, yn enwedig o gofio bod y targed rhaniad moddol 50:50 yn ymwneud â 2026. Bydd AMB'au y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol ffurfiol rheolaidd. Fodd bynnag, bydd y dull uwchgynllunio ynghyd â Chytundebau adran 106 a sicrhawyd eisoes yn gwella darpariaeth raddol yn y dyfodol o seilwaith trafndiaeth ategol, ynghyd â mesurau eraill megis amllder cynyddol gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a darparu tocynnau bws i breswylwyr newydd.

**Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** - mae'r gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd i ddiwallu'r angen amlwg am safleoedd parhaol a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac mae gwaith yn parhau i sicrhau canlyniadau priodol. O ran safleoedd tramwy, credir mai'r ffordd orau o ystyried y rhain yw ar sail ranbarthol, a fyddai angen cydweithredu ag awdurdodau lleol cyfagos trwy'r broses adolygu CDLI.

**Canllawiau Cynllunio Atodol** – Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd ac ers mabwysiadu'r CDLI mae 18 CCA wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i gefnogi'r polisiâu yn y Cynllun mabwysiedig. Mae Cynllun Seilwaith Caerdydd yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd.

**Newidiadau Cyd-destunol** – mae'r adolygiad cyd-destunol yn tynnu sylw at newidiadau sylweddol yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi esblygu'n sylweddol dros y tri chyfnod monitro diwethaf. Yn benodol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018), sydd yn ei dro yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith polisi lefel uchel.

## **Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)**

Mae Adran 6 yn ehangu ar yr asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AoG. Mae hyn yn darparu cymhariaeth â'r data sylfaenol a ddarparwyd gan yr AMB cyntaf a'r ail, a gyhoeddwyd yn 2017 a 2018.

## **Casgliadau**

Mae'r 3ydd AMB darparu cymhariaeth gyda'r data sylfaenol a ddarparwyd gan yr Yr AMB'au cyntaf a'r ail, a gyhoeddwyd yn 2017 a 2018. Y casgliadau allweddol yn y drydedd flwyddyn o adrodd yw bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gyffredinol o ran cyflenwi'r targedau a nodwyd a monitro canlyniadau, gyda'r oedi a nodwyd o ran cyflenwi tai bellach yn dangos arwyddion cryf o well cyfraddau cwblhau tai.

Argymhellir cyflwyno'r AMB hwn i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion statudol. Bydd monitro parhaus mewn AMB'au yn y dyfodol yn helpu i nodi unrhyw dueddiadau diffiniol ym mherfformiad strategaeth a fframwaith polisi'r Cynllun.



## 2. Cyflwyniad

Mae'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn darparu'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac mae'n helpu i hysbysu p'un a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni a p'un a yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu pa effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac mae'n nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol o bwys a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses gwneud y cynllun. Mae'n darparu'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a llunio polisïau, gweithredu polisi, gwerthuso a chynllunio'r adolygiad

### **Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd**

O dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a'r Rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol (ACLI'au) gynhyrchu CDLI. Mabwysiadwyd Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn ffurfiol gan y Cyngor ar 28ain Ionawr 2016. Mae'r CDLI yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch datblygiadau yn y ddinas yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

Hwn yw'r 3ydd AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2018 – 31ain Mawrth 2019.

### **Y Gofyniad ar gyfer Monitro**

#### **Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol, o dan adran 61 o Ddeddf 2004, i gadw'r holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal o dan adolygiad. Yn ogystal, o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Felly mae paratoi AMB yn rhan annatod o'r broses cynllun datblygu statudol.

Er mwyn monitro perfformiad y CDLI yn gyson, dylid ystyried cynlluniau yn erbyn set safonol o ddangosyddion a thargedau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar gynnwys gofynnol AMB'au.

### **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Cafodd y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) eu diwygio i symleiddio rhai agweddau o weithdrefnau'r cynllun datblygu lleol; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn effeithio ar broses fonitro'r CDLI. O dan Reoliad 37 mae'n ofynnol i'r AMB:

- Nodi'r polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu;

Ac i bob polisi:

- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
- Nodi'r camau (os o gwbl) y bwriedir eu cymryd i alluogi'r polisi i gael ei weithredu;
- Archwilio p'un a oes angen diwygio'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r AMB fonitro'r dangosyddion craidd a nodwyd trwy fanylu ar:

- Y cyflenwad tir ar gyfer tai o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol; a'r
- Nifer (os o gwbl) o anheddau net fforddiadwy ychwanegol a thai marchnad cyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

Mae'r rhain ar gyfer blwyddyn yr AMB ac am y cyfnod llawn ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu gyntaf.

Mae Dangosyddion Allbwn Craidd eraill ar gyfer CDLI'au yn cynnwys:

- Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol
- Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth
- Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir o fewn a thu allan i ffiniau canol trefi a dosbarth sefydledig
- Maint yr agregau tir-enilledig a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, yn cael ei fynegi fel canran o'r holl gapasiti sydd ei angen fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).

### **Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015)**

Noda Llawlyfr y CDLI mai'r agweddau sy'n ddefnyddiol eu cynnwys mewn AMB yw:

- Prif ganfyddiadau, ar ffurf Crynodeb Gweithredol 1-2 dudalen.
- Newid cyd-destunol arwyddocaol, h.y. adolygiad o faterion strategol ehangach sy'n effeithio ar yr ardal leol a'r cyd-destun y mae'r CDLI yn gweithredu ynddo, gan gynnwys ffyniant unrhyw ddiwydiannau lleol sylweddol, canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, neu gais cynllunio sylweddol
- Monitro cynaliadwyedd yn gysylltiedig ag Adroddiad yr AoG a'r broses asesu integredig (gweler adran 9.2.2).
- Monitro strategaeth, i asesu a yw'r cynllun yn cyflawni ei brif amcanion, ac a yw "ar y trywydd iawn" o ran lefel y gweithredu, e.e. lefel y datblygiadau tai newydd neu'r nifer sy'n manteisio ar safleoedd mawr.
- Monitro polisi, i dynnu sylw at unrhyw bolisiâu nad ydynt yn gweithredu'n effeithiol, ac i dynnu sylw at sut y bydd materion o'r fath yn cael sylw.
- Casgliadau ac argymhellion; e.e. nodi unrhyw welliannau/ newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried mewn adolygiad yn y dyfodol a diwygio'r cynllun posibl. Gallai ymatebion priodol eraill gynnwys nodi'r angen am CCA neu ymchwil pellach a chasglu tystiolaeth.

Dywed y Llawlyfr nad yw'n realistig nac yn angenrheidiol monitro'r holl bolisiâu - byddai hyn yn arwain at ddogfen ddiangen o fawr a chymhleth. Bydd angen cynnwys rhai meysydd allweddol yn gyson bob blwyddyn a mater i'r Awdurdod benderfynu arno yw hyn, ar sail yr elfennau hynny sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun.

Noda'r Llawlyfr y dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn darparu rhwyddineb dadansoddi rhwng adroddiadau olynol ac adeiladu ar y canlyniadau blaenorol. Bydd defnydd da o ddeunydd darluniadol fel siartiau, graffiau a mapiau hefyd yn golygu bod yr AMB yn fwy hygyrch.

Noda'r Llawlyfr ei bod yn bwysig bod gan yr AMB ddimensiwn dadansodol. Mae'n bwysig hefyd ymgorffori gwybodaeth ansodol o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft, barn arweinwyr cymunedol am eu hardaloedd, ac asesiad gwneuthurwyr y cynllun o dueddiadau, amodau a materion sy'n gyrru newid.

Noda'r Llawlyfr ei bod yn bwysig ystyried pam fod angen gwybodaeth, ac i strwythuro'r dadansoddiad yn unol â hynny. Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn berthnasol:

- Pa faterion newydd sydd wedi digwydd yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau polisi allweddol cyd-destunol a chenedlaethol diweddar, rhagolygon yn y dyfodol)?
- Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLI a'i bolisïau a thargedau allweddol?
- Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu neu eu hoedi o ran disgwyliadau'r cynllun ar leoliad ac amseriad?
- Beth fu effeithiolrwydd cyflwyno polisïau, ac o wrth-annog datblygiad anaddas?

### **Fframwaith Monitro CDLI Caerdydd**

Darperir Fframwaith Monitro ym Mhennod Chwech ac Atodiad 9 y CDLI sy'n cynnwys cyfres o 5 dangosydd cyd-destunol a 102 o ddangosyddion craidd a lleol, gyda thargedau cyfatebol a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach mewn perthynas â pholisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r cysylltiadau rhwng amcanion y Cynllun, polisïau strategol a pholisïau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â Rheoliadau a chanllawiau monitro Llywodraeth Cymru a nodir uchod. Mae'r Fframwaith Monitro yn ffurfio sail yr AMB.

### **Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011)**

Yn ogystal, rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol, Ionawr 2016, yn nodi set arall o ddangosyddion (26) a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er eu bod wedi'u cysylltu â'i gilydd, nodir y rhain ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi'r CDLI ac fe'u defnyddiwyd yn yr AMB i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI.

Mae cwblhau'r AMB yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun trwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011).

### **Fformat a Chynnwys yr AMB**

Dyluniwyd yr AMB i fod yn ddogfen gryno a hygyrch, y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfeirio cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

**Adran 1 Crynodeb Gweithredol** - Yn darparu crynodeb ysgrifenedig cryno o'r canfyddiadau monitro allweddol.

**Adran 2 Cyflwyniad** - Yn amlinellu'r angen am AMB, ei bwrpas a'i strwythur.

**Adran 3 Gwybodaeth Gyd-destunol** - Yn darparu trosolwg byr o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er ei bod y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol polisi-benodol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol, gan gynnwys newidiadau i'r fframwaith polisi ar lefel genedlaethol neu leol.

**Adran 4 Proses Monitro'r CDLI** - Esbonio'r broses fonitro a gynhaliwyd.

**Adran 5 Monitro'r CDLI - Dadansoddiad Polisi** - Adroddiadau ar y 107 o ddangosyddion monitro'r CDLI a gytunwyd yn ystod proses archwilio'r CDLI, a'u hamlinellu yn Adroddiad yr Arolygydd.

**Adran 6 Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd** - Yn darparu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn 28 o ddangosyddion monitro'r AoG.

**Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion** – Yn amlinellu trosolwg cyffredinol o'r holl ddangosyddion a pherfformiad y Cynllun yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei fabwysiadu.

**Cyhoeddi** – Cyhoeddir yr AMB ar wefan y Cyngor.

### **Monitro yn y Dyfodol**

Dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn darparu rhwyddineb dadansoddi rhwng adroddiadau olynol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy'n deillio o ffynonellau'r Cyngor yn ogystal â ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n rhai sydd wedi dyddio. Yn unol â hynny, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a bydd yr AMB yn cael ei ddefnyddio fel modd o nodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Dim ond os yw os casgliadau'r AMB, neu amgylchiadau eithriadol eraill, yn nodi fel arall y bydd adolygiad o'r CDLI yn digwydd cyn yr adolygiad ffurfiol.

### **3. Newidiadau Cyd-destunol**

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl i'r CDLI yn ei gyfanrwydd lle bo'n briodol. Hefyd amlinellir y tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r CDLI, ynghyd â chynnydd ar y prif ganllawiau cynllunio atodol.

Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i'r maes polisi CDLI neilltuol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er rhywyddineb cyfeirio, ac felly ni chaiff ei ailadrodd yma.

#### **Newidiadau Deddfwriaethol**

##### **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng Hydref 2015 a Ionawr 2016. Mae'n amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflwyno diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, i sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â 5 o amcanion allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull o gynllunio a arweinir gan y cynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Mae'r FfDC yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a fydd yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio dir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hwn yn cael ei gynhyrchu yn 2018/9 pan fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd y CDS'au yn ymdrin â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol megis tai, cyflogaeth a gwastraff, a rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Cyfeiria'r Rheoliadau at dair ardal cynllunio strategol, gan gynnwys De-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Caerdydd yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, gan alinio â chynigion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n dod i'r amlwg. Bydd gan y CDLI rôl hanfodol yn y system a arweinir gan y cynllun. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CDLI'au gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC ac unrhyw CDS sy'n cynnwys y cyfan neu ran o ardal yr awdurdod.

##### **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Gwnaed diwygiadau i Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad Ymarfer Mireinio'r CDLI ac maent yn anelu at symleiddio rhai agweddau o broses y cynllun datblygu lleol.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn:

- Dileu'r gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol;
- Caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r cynllun datblygu lleol lle nad yw'r materion dan sylw o arwyddocâd digonol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn;

- Dileu'r angen i alw am safleoedd amgen ac ymgynghori arnynt yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo; a
- Gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Daeth y Rheoliadau CDLI diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015, ac ynghyd â pholisi a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr CDLI diwygiedig, y nod yw gwneud y broses CDLI yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi a diwygio'r cynllun yn gyflymach heb osod cyfarwyddiadau dianghenraid). Nid oes gan y Rheoliadau diwygiedig unrhyw oblygiadau i'r CDLI cyfredol, ond bydd angen eu hystyried mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o'r Cynllun a byddant yn cael ystyriaeth bellach yn ôl yr angen.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Derbyniodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1af Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru trwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, a fydd yn disodli'r Cynlluniau Integredig Sengl. O ystyried bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor sylfaenol graidd y CDLI (ac AAS) mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLI a'r Ddeddf/ Cynlluniau Llesiant Lleol. Yn wir, ystyrir y bydd sylfaen dystiolaeth y CDLI, AAS/AoG a'r AMB yn llywio Cynllun Llesiant Lleol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i lywio unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

### **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 a daeth i rym ar 21ain Mai 2016. Mae'n eistedd ochr yn ochr â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheoli a datblygu adnoddau Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy'n darparu asesiad o adnoddau naturiol ac yn ystyried i ba raddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol (Datganiadau Ardal) i helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol ac yn nodi sut yr ymdrinnir â'r rhain. Rhoddir ystyriaeth bellach i unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI yn ôl yr angen.

### **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i ddwy brif gyfraith y DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd

hanesyddol: Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig ac henebion cofrestredig; gwella rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol. Er bod rhai o fesurau'r Ddeddf wedi dod i rym ym mis Mai 2016, bydd y rhan fwyaf angen is-ddeddfwriaeth neu baratodau eraill cyn iddynt gael eu dwyn i rym yn nes ymlaen yn 2017 neu yn 2018. Rhoddir ystyriaeth bellach i unrhyw oblygiadau i'r CDLI yn ôl yr angen.

### **Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017**

Derbyniodd Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac i atal niwed iechyd y gellir ei osgoi. Mae rhai o'r newidiadau perthnasol yn y Ddeddf yn cynnwys cynhyrchu strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra a gofyniad i gynnal Asesiad Effaith Iechyd (HIA) ar benderfyniadau allweddol.

## **Diwygiadau Polisi Cynllunio Cenedlaethol**

### **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018)**

Ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn wedi'i ddiwygio'n llwyr o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) ym mis Rhagfyr 2018. Mae hwn wedi ei ailddrafftio fel bod y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cael eu hintegreiddio'n llawn i mewn i bolisi. Mae hefyd yn rhoi'r cysyniad o greu lleoedd wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd ar lesiant ac yn cyflawni datblygiad newydd sy'n gynaliadwy ac yn darparu ar gyfer anghenion pawb.

### **Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)**

Diweddarwyd TAN 12 Dylunio a Chanllawiau ar Ddadansoddiad Cyd-destun Safle ym mis Mawrth 2016, TAN4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol ym mis Tachwedd 2016 a TAN 20 Cynllunio a'r iaith Gymraeg ym mis Hydref 2017. Yn ogystal, cyhoeddwyd TAN24 yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Hydref 2017 a ddisodlodd Cylchlythyrau blaenorol y Swyddfa Gymreig a oedd yn ymdrin â'r mater hwn. Darperir goblygiadau posibl i'r CDLI o'r newidiadau i'r ddau TAN hyn yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol

## **Cyd-destun Rhanbarthol**

### **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig**

Nodwyd De-ddwyrain Cymru fel ardal prifddinas-ranbarth newydd yng Nghymru, yn cwmpasu Awdurdodau Lleol Caerdydd a De-ddwyrain Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Sbarduno Economi Cymru', bwriedir i Brifddinas-Ranbarth annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill ar ei ffiniau i weithio gyda'i gilydd a chydweithredu ar brojectau a chynlluniau i'r ardal. Sefydlwyd bwrdd pontio er bod y

cynnydd yn parhau ar gam cynnar, ac ar hyn o bryd nid yw'r canlyniadau posibl ar gyfer y CDLI yn glir. Yn yr un modd, mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn parhau i weithio ar gais Bargen Ddinesig i ariannu projectau a anelir at hybu cystadleurwydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Yn bwysig iawn, llofnodwyd y ddogfen Bargen Ddinesig gan y 10 arweinydd awdurdodau lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a'r Prif Weinidog, ym mis Mawrth 2016. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Cais Bargen Ddinesig, ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y CDLI mewn AMB'au dilynol lle bo'n briodol.

## **Cyd-destun Lleol**

### **Adroddiad Uchelgais y Brifddinas**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n nodi cynllun pum mlynedd gweinyddol y Cyngor ar gyfer y ddinas. Amlinellir gweledigaeth y Cyngor i Gaerdydd ddod yn ddinas flaenllaw ar lwyfan y byd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- **Gweithio dros Gaerdydd** - Sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas, ac elwa ohono.
- **Gweithio dros Gymru** - Mae Cymru lwyddiannus angen prifddinas lwyddiannus.
- **Gweithio dros y dyfodol** - Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- **Gweithio dros wasanaethau cyhoeddus** - Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb gofynion cynyddol a chyllidebau llai.

### **Diweddariad ar Ardoll Seilwaith Cymunedol Caerdydd (CIL)**

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar Atodlen Codi Tâl Drafft CIL yn ystod y cyfnod arolygu presennol. Gan fod y mater hwn bellach wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn cyn penderfynu sut i fynd ymlaen â'r camau nesaf yn y broses baratoi. Mae'r canllawiau hyn i fod i gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd y CIL ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI mewn AMB'au dilynol, lle bo'n briodol.

## **Tueddiadau Economaidd Cyffredinol**

### **Gweithgaredd Economaidd**

Yn y tablau isod, gweler y data gweithgaredd economaidd allweddol ar gyfer Caerdydd a Chymru o ddyddiad sylfaen y CDLI 2006 i'r cyfnod monitro cyfredol. Dengys y data bod Caerdydd wedi profi perfformiad economaidd gwell mewn perthynas â'r dangosyddion hyn, gyda dangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac enillion i gyd yn uwch na dyddiad sylfaen y CDLI yn 2006. Fodd bynnag, ni ystyrir bod newidiadau o'r fath mor arwyddocaol fel bod ganddynt unrhyw oblygiadau i'r CDLI. Ystyrir y dangosyddion economaidd hyn mewn AMB'au dilynol a chofnodir unrhyw oblygiadau posibl.



## Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 – Mawrth 2007	<b>66.7%</b>	<b>69.1%</b>
Ebrill 2007 – Mawrth 2008	<b>68.9%</b>	<b>69.3%</b>
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	<b>69.5%</b>	<b>68.4%</b>
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	<b>68.15</b>	<b>66.6%</b>
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	<b>64.7%</b>	<b>66.4%</b>
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	<b>65.5%</b>	<b>66.7%</b>
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	<b>65.5%</b>	<b>67.6%</b>
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	<b>69.4%</b>	<b>69.5%</b>
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	<b>65.6%</b>	<b>69.3%</b>
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	<b>69.1%</b>	<b>71.1%</b>
Ebrill 2016 - Mawrth 2017	<b>69.1%</b>	<b>71.4%</b>
Ebrill 2017 - Mawrth 2018	<b>72.0%</b>	<b>72.7%</b>
Ebrill 2018 - Mawrth 2019	<b>79.0%</b>	<b>76.7%</b>

Ffynhonnell: Nomis

## Economaidd Weithgar – Di-waith

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 – Mawrth 2007	<b>6.2%</b>	<b>5.3%</b>
Ebrill 2007 – Mawrth 2008	<b>6.1%</b>	<b>5.6%</b>
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	<b>6.9%</b>	<b>6.8%</b>
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	<b>8.7%</b>	<b>8.3%</b>
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	<b>8.9%</b>	<b>8.4%</b>
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	<b>9.1%</b>	<b>8.4%</b>
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	<b>10%</b>	<b>8.3%</b>
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	<b>8.1%</b>	<b>7.4%</b>
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	<b>8.4%</b>	<b>6.8%</b>
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	<b>6.7%</b>	<b>5.4%</b>
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	<b>4.8%</b>	<b>4.4%</b>
Ebrill 2017 – Mawrth 2018	<b>6.0%</b>	<b>4.9%</b>
Ebrill 2018 – Mawrth 2019	<b>4.6%</b>	<b>4.5%</b>

Ffynhonnell: Nomis

## Tâl Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Aelwyd)

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 – Mawrth 2007	£442.2	£414.8
Ebrill 2007 – Mawrth 2009	£453.2	£424.8
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	£483.0	£444.6
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	£499.3	£456.2
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	£498.5	£455.1
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	£495.4	£454.9
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	£503.6	£475.3
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	£496.4	£480.0
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	£519.0	£487.6
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	£534.4	£499.2
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	£538.5	£505.9
Ebrill 2016 – Mawrth 2017	£534.4	£499.2
Ebrill 2017 – Mawrth 2018	£538.5	£505.9
Ebrill 2018 – Mawrth 2019	£536.7	£518.6

Ffynhonnell: Nomis

### Prisiau Tai

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae data'r Gofrestrfa Tir yn nodi bod prisiau tai cyfartalog cyffredinol wedi cynyddu yng Nghaerdydd dros y cyfnod monitro presennol. Yn 2017, roedd prisiau cyfartalog £223,081 yn uwch na phris gwaelodlyn 2006 (£177,469). Dengys y data isod bod prisiau tai wedi codi 26% yn ystod y cyfnod monitro.

### Pris Tŷ ar Gyfartaledd yng Nghaerdydd 2006 i 2018

Cyfnod Amser	Pris Tŷ ar Gyfartaledd
2006	£177,469
2007	£184,136
2008	£174,278
2009	£173,100
2010	£183,498
2011	£181,529
2012	£181,690
2013	£190,048
2014	£195,390
2015	£202,970
2016	£213,714
2017	£223,081
2018	£234,095

Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir

## Canllawiau Cynllunio Atodol

Mabwysiadwyd nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Y rhain yw:

- Tai Amlfeddiannaeth
- Cyfleusterau Casglu a Storio Gwastraff
- Lleoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff
- Rhwymedigaethau Cynllunio
- Adeiladau Uchel
- Canllaw Dylunio Preswyl
- CCA Gofal Plant
- Cynllunio ar gyfer lechyd
- Canllawiau Dylunio Mewnlenni
- Canllawiau Estyniadau ac Addasiadau Preswyl
- Seilwaith Gwyrdd (gan gynnwys Nodiadau Canllaw Technegol sy'n ymwneud â Mannau Agored, Ecoleg a Bioamrywiaeth, Coed, Priddoedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Choridorau Afonydd)
- Diogelu Busnes a Thir Diwydiannol ac Eiddo
- Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden
- Ardaloedd Archeolegol Sensitif
- Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth (gan gynnwys Safonau Parcio)
- Trawsnewid Fflatiau
- Llety Myfyrwyr

Yn ychwanegol, cymeradwywyd y CCA canlynol gan y Cyngor ar 20<sup>ain</sup> Gorffennaf 2019, tu allan i'r cyfnod monitro:

- Canllaw ar Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion

Parha'r gwaith ar CCA eraill ac adroddir ar gynnydd ar y rhain yn yr AMB nesaf.

## Crynodeb

Fel y manylir uchod, mae deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiâu a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, a gallai rhai ohonynt fod ag oblygiadau ar gyfer gweithredu'r CDLI yn y dyfodol. Bydd AMB'au dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

## 4. Proses Monitro'r CDLI

### Sut gaiff y CDLI ei fonitro?

Mae Adran 5 yn ystyried i ba raddau y mae strategaeth y CDLI yn cael ei gwireddu gan gyfeirio at berfformiad polisiâu penodol yn erbyn y dangosyddion, y targedau a'r sbardunau sydd o fewn fframwaith monitro'r CDLI. Mae strwythur yr adran fel a ganlyn:

#### Amcan strategol

Dyma'r man cychwyn ar gyfer y broses fonitro. Mae'r AMB yn dyblygu pob un o'r 4 amcan cyffredinol CDLI a nodir isod, y mae polisiâu'r CDLI yn llifo ohonynt.

- **Amcan 1** – Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflenwi datblygiad
- **Amcan 2** – Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt
- **Amcan 3** – Cyflenwi'r anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydlynol sy'n parchu amgylchedd Caerdydd ac yn ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd
- **Amcan 4** – Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n ffurfio rhan o ddinas gynaliadwy

#### Gwybodaeth Gyd-destunol

Amlinellir y wybodaeth gyd-destunol arwyddocaol sydd wedi ei chyhoeddi ers mabwysiadu'r Cynllun, lle mae'n berthnasol i bolisi strategol penodol. Bydd hyn yn galluogi'r AMB i benderfynu p'un a yw newidiadau cyd-destunol wedi effeithio ar berfformiad polisi. Gall y rhain gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, cynlluniau, polisiâu neu strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn ogystal â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol a allai effeithio ar gyflenwii'r CDLI, fel amodau economaidd. Mae unrhyw newidiadau o'r fath y tu allan i gylch gorchwyl y CDLI.

#### Dangosyddion

Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion craidd a lleol a fydd yn llywio cynnydd a chyflawniad polisi. Arweiniwyd y dewis o'r dangosyddion hyn gan yr angen i nodi dangosyddion allbwn sy'n gallu mesur gweithgareddau ffisegol mesuradwy sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu polisiâu'r CDLI.

Mae nifer o'r dangosyddion craidd naill ai'n cael eu rhagnodi gan Reoliad 37 CDLI neu'n cael eu hargymell yn y Llawlyfr CDLI oherwydd y gallant alluogi asesiad o weithrediad polisi cenedlaethol. Nodwyd dangosyddion craidd pellach ar sail eu gallu i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch p'un a yw cyflenwi'r strategaeth CDLI yn mynd rhagddo fel y rhagwelir.

Atega'r dangosyddion lleol y dangosyddion craidd, ac maent wedi'u dewis yn seiliedig ar argaeledd ac ansawdd y data a'u perthnasedd i'r ardal leol. Hefyd cynhwyswyd rhai dangosyddion cyd-destunol lleol sy'n cynnwys nodweddion allweddol lleol, yn erbyn y rhai y mae polisiâu'r CDLI yn gweithredu.

## **Targedau**

Mae'r dangosyddion polisi yn gysylltiedig â thargedau cyfatebol sy'n darparu meincnod ar gyfer mesur gweithredu polisi. O ystyried hyd cyfnod y cynllun, mae angen cynnwys targedau 'carreg filltir' i benderfynu a yw'r Cynllun yn symud yn ei flaen tuag at gwrdd â'r strategaeth gyffredinol. Mae'r amserlen a bennir i dargedau o'r fath yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi'r datblygiad disgwylidig. Bydd y Cyngor yn ymchwilio i unrhyw bolisi sy'n methu â chyrraedd ei darged. Bydd lefel yr ystyriaeth a roddir i bolisiau o'r fath yn yr AMB yn dibynnu ar y rhesymau a nodwyd ar gyfer methiant, ac arwyddocâd y polisi ar gyfer chyflenwi strategaeth y cynllun cyffredinol.

## **Sbardunau**

Hefyd cynhwyswyd lefelau sbardun ar gyfer rhai targedau i helpu i fesur perfformiad y cynllun yn fwy cywir. Byddant yn rhoi syniad pryd nad yw'r targedau polisi yn cael eu diwallu, neu lle mae cynnydd annigonol tuag at eu diwallu.

## **Dadansoddiad**

O ystyried y dangosyddion, targedau, sbarduno a monitro canlyniadau perthnasol, mae'r AMB yn asesu p'un a yw polisiau'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriedir, ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys adnabod ac ymchwilio ymhellach i unrhyw bolisi sy'n methu â chyrraedd ei darged a/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbarduno. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod polisi yn cyrraedd ei lefel sbarduno yn awgrymu bod y polisi'n methu'n awtomatig. Bydd y dadansoddiad yn ystyried a all perfformiad o'r fath fod o ganlyniad i amgylchiadau eithafol, neu a ellir ei gyfiawnhau yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol. Mewn rhai achosion, bu'n anodd nodi tueddiadau ystyrion oherwydd y swm cyfyngedig o ddata sydd ar gael - o ganlyniad, mae rhai o'r casgliadau a luniwyd yn rhagarweiniol a bydd angen eu dilysu yn erbyn cyfnod hwy o fonitro. Mewn achosion lle nad yw'r Cyngor wedi gallu monitro dangosydd neu lle y disodlwyd dangosydd, darperir eglurhad yn yr adran sy'n ymdrin â'r dadansoddi polisi perthnasol.

## **Argymhellion**

Gan ystyried y dadansoddiad polisi, darperir argymhellion priodol gan gynnwys datganiad o unrhyw gamau angenrheidiol sydd angen eu cyflawni. Os canfyddir bod y polisiau'n methu, bydd yr AMB yn nodi argymhellion clir ynglŷn â beth sydd angen ei wneud, os unrhyw beth, i ymdrin â hyn.

## **Canfyddiadau cyffredinol i bob amcan strategol**

Yn olaf, ar gyfer pob amcan strategol, darperir datganiad perfformiad cyffredinol a rhoddir casgliad ynghylch p'un a yw'r amcan penodol hwnnw'n cael ei gyflawni trwy gyfuniad o bolisiau a nodwyd.

## Sgôr Goleuadau Traffig Perfformiad Polisi

Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu strategol y Cynllun ac i ddarparu trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi, cynhwyswyd graddfa 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

<b>Parhau i fonitro (Gwyrdd)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes unrhyw achos i'w hadolygu.	
<b>Angen Hyfforddiant (Glas)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu aelodau.	
<b>Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)</b>	
Gall y dangosyddion awgrymu bod angen darparu rhagor o ganllawiau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn y Cynllun.	
<b>Ymchwil Pellach (Melyn)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiâu'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, a bod angen ymchwil ac archwiliad pellach.	
<b>Adolygiad Polisi (Oren)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisiâu'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwil ac archwiliad pellach cyn cadarnhau'r penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.	
<b>Adolygiad Cynllun (Coch)</b>	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio'n llawn i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun a'i wneud yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.	

## Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae'r AoG yn nodi 26 o ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Nodir hyn yn Adran 6 yr AMB.

Yn yr adran hon, ceir asesiad manwl o p'un a weithredir polisiâu strategol y Cynllun, a'r polisiâu ategol cysylltiedig, fel y bwriedir ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Darperir argymhellion priodol yn dilyn hynny, ynghyd â chamau gweithredu angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd trwy'r broses fonitro. Yn unol â'r CDLI, nodir y dadansoddiad yn nhrefn polisi strategol.

## 5. Dadansoddiad Polisi Monitro'r CDLI

### Dangosyddion Cyd-destunol

Dangosyddion Cyd-destunol	Targed	Sbardun	Canlyniad 2016/17	Canlyniad 2017/2018	Canlyniad 2018/2019
Cyfradd diweithdra blynyddol	Cyfradd diweithdra blynyddol yn gostwng	Cyfradd diweithdra blynyddol yn cynyddu am 2 flynedd neu fwy yn olynol	5.3%	6.0%	4.6%
Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru	Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru yn gostwng	Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru yn cynyddu am 2 flynedd neu fwy yn olynol	Mae'r data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf o 2015 yn dangos bod 12% o boblogaeth Caerdydd yn y 100 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru	Bwriedir cynnal y diweddariad nesaf o Fynegai Cymru yn 2019	Bwriedir cynnal y diweddariad nesaf o Fynegai Cymru yn 2019
Lefel troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghaerdydd	Cyfraddau troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yn gostwng	Cyfraddau troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yn cynyddu am ddwy flynedd neu fwy yn olynol.	Yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2016, roedd cyfraddau troseddau i fyny yng Nghaerdydd (ac yn ardal heddlu De Cymru) o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2015. Cynyddodd cyfraddau troseddau yng	Yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2017, roedd cyfraddau troseddau i fyny yng Nghaerdydd (ac yn ardal heddlu De Cymru) o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2016. Cynyddodd cyfraddau troseddau yng	Yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018, roedd cyfraddau troseddau i fyny yng Nghaerdydd (ac yn ardal heddlu De Cymru) o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2018. Gostyngodd

Dangosyddion Cyd-destunol	Targed	Sbardun	Canlyniad 2016/17	Canlyniad 2017/2018	Canlyniad 2018/2019
			Nghaerdydd o 23.08 o droseddau fesul mil o drigolion i 25.32 o droseddau fesul mil o drigolion.	Nghaerdydd o 25.32 o droseddau fesul mil o drigolion i 28.33 o droseddau fesul mil o drigolion	cyfraddau troseddau yng Nghaerdydd o 28.33 o droseddau fesul mil o drigolion i 27.72 o droseddau fesul mil o drigolion.
Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol	Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cynyddu'n flynyddol dros gyfnod y Cynllun	Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol yn gostwng am ddwy flynedd yn olynol	Dywedodd 62% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am fwy na 150 munud yn yr wythnos flaenorol  Dywedodd 23% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am lai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol	Dywedodd 58% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am fwy na 150 munud yn yr wythnos flaenorol  Dywedodd 27% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am lai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol	Dywedodd 56% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am fwy na 150 munud yn yr wythnos flaenorol  Dywedodd 31% o oedolion eu bod yn gorfforol egniol am lai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol
2) Addysg: 2014 = 13.0% 2015 = 11.6% (↓) -1.4% 2016 = 12.8% (↑) +1.2%	2) Addysg: 2016 = 12.8% 2017 = 10.7% (↓) -2.1%	2) Addysg: 2017 = 10.7% 2018 = 10.5% (↓) -0.2%
3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 29.4% 2015 = 29.4% ( ) +0% 2016 = 26.7% (↓) -2.7%	3) Siopa (Canol y Ddinas): 2016 = 26.7% 2017 = 25.3% (↓) -1.4%	3) Siopa (Canol y Ddinas): 2017 = 25.3% 2018 = 23.5% (↓) -1.8%
4) Siopa (Arall): 2014 = 8.6% 2015 = 8.4% (↓) -0.2% 2016 = 8.9% (↑) +0.5%	4) Siopa (Arall): 2016 = 8.9% 2017 = 7.2% (↓) -1.7%	4) Siopa (Arall): 2017 = 7.2% 2018 = 7.1% (↓) -0.1%

5) Hamdden:  
 2014 = 11.2%  
 2015 = 10.8% (↓) -0.4%  
 2016 = 10.5% (↓) -0.3%

5) Hamdden:  
 2016 = 10.5%  
 2017 = 10.3% (↓) -0.2%

5) Hamdden:  
 2017 = 10.3%  
 2018 = 10.1% (↓) -0.2%


### Dadansoddiad

Dengys yr uchod fethiant i gyflawni'r cynnydd targed i bob pwrpas teithio, ac eithrio Gwaith sydd wedi cynyddu 0.9% ers 2017.

At hynny, oherwydd na lwyddwyd i gyflawni'r targedau yn ystod y flwyddyn flaenorol, mae'r sbardun (methiant i sicrhau cynnydd am ddwy flynedd yn olynol neu fwy) bellach wedi'i gyflawni, a fydd o ganlyniad yn golygu'r angen am ddadansoddiad pellach wrth baratoi ar gyfer monitro'r flwyddyn nesaf, fel y manylir yn yr argymhellion isod.


Mae'r dirywiad uchod yn y defnydd o fysiau i bob pwrpas teithio yn amlwg wrth edrych ar y duedd gyffredinol, yn unol â'r cyfartaleddau treigl hanesyddol 5 mlynedd a gaiff eu plotio yn ffigur 1.17.1 isod -

**Ffigur 1.17.1**



Serch hynny, nid yw'r dirywiad hwn yn benodol i Gaerdydd, ac mae'n arwydd o ddirywiad yn y defnydd o fysiau ledled y wlad, fel sy'n amlwg wrth gymharu'r data uchod ar gyfer Caerdydd gyda'r data ar gyfer nifer y teithiau yng Nghymru (fel y dangosir yn ffigur 11.17.2), sy'n dangos patrwm dirywiad tebyg.


**Ffigur 1.17.2**



Mewn ymateb i'r uchod, cyfarwyddwyd Trafnidiaeth Cymru (TfW) gan Lywodraeth Cymru mewn llythyr cylch gwaith dyddiedig 30/04/2019 (<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/remit-letter-1-April-2019-to-31-march-2020.pdf>) i gynnal astudiaeth beilot 2019/2020 ledled Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyda gweithredwyr bysiau, i ystyried sut y gellir gwrthdroi'r tueddiadau cenedlaethol sy'n dirywio. Enghreifftiau o'r opsiynau sy'n debygol o gael eu hystyried yw tocynnau integredig, blaenoriaeth i fysiau, gwelliannau gwasanaeth ac amllder ayb.

Er bod y niferoedd sy'n teithio ar fws wedi gostwng yn sylweddol dros nifer o flynyddoedd, mae'r nifer sy'n defnyddio bysiau yng Nghanol y Ddinas o leiaf wedi aros yn weddol sefydlog dros yr amser hwn, fel y dangosir yn ffigur 1.17.3 isod—

**Ffigur 1.17.3**




Fel y soniwyd uchod, oherwydd y cyflawnwyd y sbardun eleni, mae angen rhoi ystyriaeth fanylach bellach er mwyn pennu'r achosion sylfaenol, a nodi'r camau cywiro angenrheidiol fel sy'n briodol ar y cyd â'r fethodoleg a ddiffinnir yn y Fframwaith Monitro Trafnidiaeth.

Manylir ar y camau penodol i'w dilyn yn yr Argymhellion isod. Serch hynny, rhoddir ystyriaeth gychwynnol isod i'r ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at y dirywiad yn y defnydd o fysiau.

Rhai o'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y dewis i deithio ar fws yw amllder, amseroedd teithio a dibynadwyedd (fel y trafodwyd yn OB1 EC19-20) yn enwedig yn wyneb tagfeydd cynyddol, a phrisiau tocynnau o'u cymharu â phrisiau tanwydd.

Mae'r tagfeydd ar y rhwydwaith yn ystod y cyfnodau prysuraf yn gosod heriau sylweddol i weithrediad gwasanaethau bysiau dibynadwy a deniadol, fel y dangosir yn ffigur 1.17.4 isod.

**Ffigur 1.17.4**




Dengys Mynegai Traffig TomTom bod lefel y tagfeydd yng Nghaerdydd wedi cynyddu 1%, o 27% yn 2017 i 28% erbyn 2018, ac mae hefyd yn nodi bod hyd at 57% o'r amser a dreulir yn ystod y cyfnodau brig i'w briodoli i dagfeydd. Lle mae diffyg blaenoriaeth, mae'n anochel y bydd bysiau'n cael eu dal yng nghanol hyn, gan arwain at amseroedd teithio uwch a llai o ddibynadwyedd.

I gydnabod hyn, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried strategaeth yn y dyfodol o 'Goridorau Clyfar' gyda blaenoriaeth i fysiau, gan ddarparu gwell rheolaeth o giwio ar y rhwydwaith, a sicrhau bod effeithiolrwydd blaenoriaeth bysiau cyfredol ac i'r dyfodol yn cael ei fwyafu.

Hefyd, ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a ddylid defnyddio'r bws ai peidio yw hygyrchedd ffisegol. Yn gyffredinol, mae lefel hygyrchedd arosfannau bysiau ag amledd gwasanaeth uchel (o leiaf 6 gwasanaeth yr awr) yng Nghaerdydd yn weddol dda ar y cyfan, fel y dangosir yn ffigur 1.17.5 isod -

**Ffigur 1.17.5**



Nid yw'r asesiad o hygyrchedd yn rhoi cyfrif o'r man y mae defnyddwyr yn dymuno teithio iddo. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n teithio i ganol y ddinas yn hytrach nag ar draws y ddinas.

Dengys yr uchod hefyd er bod lefel y ddarpariaeth yng Nghaerdydd yn weddol dda ar y cyfan, bod eithriadau nodedig lle mae hygyrchedd yn wael a/neu lle mae diffyg gwasanaethau bws aml.

Yn benodol, nid yw'r ardaloedd a ganlyn yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol - Creigiau, Sain Ffagan, Pentyrch, Gwaelod-y-Garth, Radur, Llys-faen a Chyncoed; gyda rhannau o'r Eglwys Newydd/ Tongwynlais, y Mynydd Bychan a Sblot hefyd yn amlwg, sy'n cydberthyn â lefelau isel o ddefnydd bysiau yn yr ardaloedd hyn yn ôl Cyfrifiad 2011; h.y. Radur (2%), Llys-faen (2%), Pentyrch (3%), Creigiau/ Sain Ffagan (4%) a Chyncoed (6%); o'i gymharu â'r cyfartaledd o 11% yng Nghaerdydd yn gyffredinol.

Yn y cyfamser, mae lefel y ddarpariaeth gwasanaeth yn gymharol uchel mewn ardaloedd fel Trelái, Llanrhymni, Caerau a Phentwyn; sy'n cydberthyn â lefelau uchel o ddefnydd bysiau o ganlyniad, gyda 22%, 19%, 18% a 17%, yn y drefn honno, yn teithio i'r gwaith ar fws, yn ôl Cyfrifiad 2011.

Ar ben hynny, bydd y tagfeydd cynyddol fel y trafodwyd uchod, diffyg gorsaf fysiau ganolog, prisiau tocynnau uwch, a newidiadau mewn gwasanaethau bysiau, i gyd yn effeithio ar ddewis pobl i deithio ar fws.



Dylid nodi hefyd bod cyfran uchel o deithio rhatach yng Nghymru, sef 45% o'i gymharu â dim ond 22% yn Lloegr a 35% yn yr Alban. Felly, mae nifer gyffredinol y cwsmeriaid sy'n talu am docyn teithio ac sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau ar hyn o bryd yn cael eu cuddio o fewn y ffigurau a ddarparwyd yn flaenorol, oherwydd cyfran uchel y deiliaid tocynnau bws rhatach.

Ystyriaeth bwysig arall yw canfyddiad y cyhoedd o wasanaethau bysiau a lefelau boddhad.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi newid eu defnydd o rai dulliau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nododd ymatebwyr i Arolwg Holi Caerdydd 2018 fod 10% wedi defnyddio mwy ar fysiau, tra bod 11% wedi defnyddio llai ar fysiau, gan arwain at ostyngiad net yn y defnydd o 1% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Wrth gymharu'r ymatebion a dderbyniwyd rhwng 2016 a 2018 mewn perthynas â barn am wasanaethau bysiau, mae'n ymddangos bod lefelau boddhad wedi gostwng, fel sy'n amlwg yn y tabl yn ffigur 1.17.6 isod –

**Ffigur 1.17.6**

<b>Ymatebwyr yn fodlon iawn/gweddol fodlon:</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>
Amser y Teithiau	63%	52% (↓)	45% (↓)
Gwybodaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus	55%	43% (↓)	42% (↓)
Amllder y Gwasanaeth	57%	49% (↓)	44% (↓)
Dibynadwyedd Amser Taith	55%	44% (↓)	40% (↓)
Cyflwr Arosfannau/ Llochesi Bws	56%	48% (↓)	42% (↓)
Darparu Gwybodaeth Amser Real	50%	39% (↓)	37% (↓)
Darparu Amserlen Argraffedig	49%	42% (↓)	37% (↓)
Gwasanaethau Bws Lleol yn gyffredinol	57%	45% (↓)	41% (↓)
Bysiau yn gyffredinol	64%	53% (↓)	52% (↓)

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau uchod hefyd yn cuddio gwahaniaeth amlwg mewn barn rhwng defnyddwyr bysiau a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr, gyda thua 50% o foddhad yn nodweddiadol ymhlith defnyddwyr, o'i gymharu â thua 20% ymhlith y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr. Darperir canlyniadau 2018 sy'n cymharu'r ddau yn y tabl yn ffigur 1.17.7 isod –

**Ffigur 1.17.7**

<b>Ymatebwyr yn fodlon iawn/gweddol fodlon:</b>	<b>Defnyddwyr bysiau</b>	<b>Heb fod yn ddefnyddwyr bysiau</b>	<b>Cyffredinol</b>
Amser y Teithiau	55%	21%	45%
Gwybodaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus	49%	23%	42%
Amllder y Gwasanaeth	53%	21%	44%
Dibynadwyedd Amser Taith	47%	20%	40%
Cyflwr Arosfannau/ Llochesi Bws	46%	26%	42%
Darparu Gwybodaeth Amser Real	39%	25%	37%

Darparu Amserlen Argraffedig	42%	22%	37%
Gwasanaethau Bws Lleol yn gyffredinol	49%	18%	41%

At hynny, nodar tabl canlynol (ffigur 1.17.8) ba welliannau yr hoffai'r cyhoedd eu gweld, ac mae'n dangos bod llawer o'r blaenoriaethau'n ymwneud â gwelliannau mewn trafndiaeth gyhoeddus –

**Ffigur 1.17.9**

<b>Gwelliannau yr hoffai trigolion eu gweld:</b>	<b>Dymunol</b>	<b>Blaenoriaeth</b>
Llai o dagfeydd	52%	23%
Tocynnau integredig	45%	12%
Gwell amllder a dibynadwyedd gwasanaeth bysiau	42%	14%
Mwy o wasanaethau bysiau traws-ddinas	41%	12%
Mwy o lonydd bysiau	36%	7%
Oriau estynedig o weithredu bysiau	36%	9%
Gwell gwybodaeth deithio	33%	5%
Darparu gwasanaethau bysiau mwy uniongyrchol	30%	6%
Mwy o safleoedd Parcio a Theithio	21%	6%

Mae'r tabl canlynol (ffigur 1.17.10) yn cymharu boddhad cymharol defnyddwyr â'r prif weithredwyr bysiau yng Nghaerdydd, fel yr adroddwyd yn 'Arolwg Teithwyr Bws 2018' gan Passenger Focus –

**Ffigur 1.17.10**

<b>Boddhad yn ôl gweithredwr:</b>	<b>Gwerth am arian</b>	<b>Prydlondeb</b>	<b>Amser taith</b>	<b>Cyffredinol</b>
Bws Caerdydd	65%	76%	85%	89%
New Adventure	-	79%	93%	89%
Bws Casnewydd	68%	72%	79%	87%
Stagecoach	62%	73%	86%	90%

Dengys yr uchod lefelau da iawn o foddhad yn gyffredinol, ond mae'n tynnu sylw at rai pryderon posibl ynghylch a yw gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian ai peidio.

### **Argymhellion**

Mewn ymateb i gyflawni'r sbardun, bydd angen cynnal yr ymchwiliadau canlynol ar y cyd â'r fethodoleg fel y nodir yn y Fframwaith Monitro Trafnidiaeth; ac yn unol ag ymrwymadau a wnaed fel rhan o broses Archwilio'r CDLI –

- Mapio Hygyrchedd
- Ymchwiliad i Goridorau
- Asesiad o Gostau Taith

Hefyd cynhelir yr arolygon canlynol –

- Symudiadau Troi ar Gyffordd/ Cyfrif Cyswllt Dosbarthedig
- Arolygon Nifer sy'n Defnyddio'r Bws
- Arolygon Amser/ Dibynadwyedd Taith Bws (defnyddio data gweithredwr VIX os yw ar gael)

## Maes Testun: Canran y Bobl Yn Teithio Gyda Thrên

**Polisiau CDLI perthnasol:** KP2, KP6, KP8, T1-T9

**Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC18**

**Newidiadau Cyd-destunol:** Dyfarnodd Trafnidiaeth Cymru gontract £5bn 15-mllynedd i weithredu masnachfrait Cymru a'r Gororau ac i ddatblygu cynllun Metro De Cymru rhwng 2018 a 2033 i bartneriaeth KeolisAmey ym mis Mai 2017; trosglwyddwyd y cyfrifoldebau drostynt o Drenau Arriva Cymru i'r gweithredwr newydd 'TfW Rail' ar y 14eg o Hydref 2018. Ar hyn o bryd, mae gan TfW nifer fawr o drenau newydd wedi eu harchebu, ond hyd nes bydd y rhain ddod yn weithredol, mae'r trenau presennol yn cael eu hailfrandio a'u hadnewyddu, sydd ar adegau wedi achosi beirniadaeth oherwydd bod dros oddeutu chwarter y fflyd allan o wasanaeth ar unrhyw un adeg oherwydd y gwaith adnewyddu, ynghyd â'r angen am waith atgyweirio.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Lleol</b> Canran y bobl yn teithio gyda thrên (bob taith)	Cynnydd blynyddol yn y teithiau a wneir gyda htrên i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 5.8% (2014) 2) Addysg = 5.2% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 10.6% (2014) 4) Siopa (Arall) = 3.8% (2014) 5) Hamdden = 8.7% (2014)	Methiant i gynyddu cynnydd blynyddol i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol
Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017	Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018	Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019
1) Gwaith: 2014 = 5.8% 2015 = 6.0% (↑) +0.2% 2016 = 7.6% (↑) +1.6%	1) Gwaith: 2016 = 7.6% 2017 = 6.8% (↓) -0.8%	1) Gwaith: 2017 = 6.8% 2018 = 6.4% (↓) -0.4%
2) Addysg: 2014 = 5.2% 2015 = 4.8% (↓) -0.4% 2016 = 5.6% (↑) +0.8%	2) Addysg: 2016 = 5.6% 2017 = 5.2% (↓) -0.4%	2) Addysg: 2017 = 5.2% 2018 = 4.7% (↓) -0.5%
3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 10.6% 2015 = 10.1% (↓) -0.5% 2016 = 11.3% (↑) +1.2%	3) Siopa (Canol y Ddinas): 2016 = 11.3% 2017 = 11.0% (↓) -0.3%	3) Siopa (Canol y Ddinas): 2017 = 11.0% 2018 = 11.3% (↑) +0.2%
4) Siopa (Arall): 2014 = 3.8% 2015 = 3.0% (↓) -0.8%	4) Siopa (Arall): 2016 = 4.4% 2017 = 2.7% (↓) -1.7%	4) Siopa (Arall): 2017 = 2.7% 2018 = 3.2% (↑) +0.5%

2016 = 4.4% (↑) +1.4%

5) Hamdden:  
 2014 = 8.7%  
 2015 = 7.5% (↓) -0.8%  
 2016 = 8.8% (↑) +1.3%

5) Hamdden:  
 2016 = 8.8%  
 2017 = 8.3% (↓) -0.5%


5) Hamdden:  
 2017 = 8.3%  
 2018 = 8.5% (↑) +0.3%

**Dadansoddiad**

Er bod y gyfran sy'n teithio ar y trên i bwrpasau Siopa a Hamdden wedi cynyddu ers y llynedd, mae'r uchod hefyd yn dangos gostyngiad yn y gyfran sy'n teithio ar drên i bwrpasau Gwaith ac Addysg am ddwy flynedd yn olynol, ac felly gwelir bod y sbardun wedi ei gyflawni.


Serch hynny, wrth edrych ar y duedd gyffredinol mewn defnydd o drenau fel y dengys y cyfartaleddau treigl hanesyddol 5 mlynedd isod, mae'n amlwg bod y trywydd cyffredinol ar gyfer defnyddio trenau ar i fyny ar gyfer pob taith, fel y dengys ffigur 1.18.1 isod –

**Ffigur 1.18.1**



Gan osod y tueddiadau yn ffigur 1.18.1 mewn cyd-destun â'r defnydd o orsafoedd yng Nghaerdydd fel yr adroddir bob blwyddyn gan ORR, gellir gweld bod y duedd mewn teithiau Siopa yn debyg iawn i'r twf cyffredinol yn y niferoedd sy'n defnyddio gorsafoedd, tra'r ymddengys bod teithiau gwaith wedi cynyddu ar gyfradd llawer uwch, wedi mwy na dyblu er 2007, fel y dangosir yn ffigur 1.18.2 isod –

**Ffigur 1.18.2**



Wrth ystyried canfyddiad y cyhoedd o wasanaethau rheilffordd fel y dangosir yng nghanlyniadau Arolwg Holi Caerdydd 2018 yn ffigur 1.18.3 isod, mae'n amlwg bod awydd cyffredinol i weld gwelliannau mewn gwasanaethau trên lleol ac i gyflwyno tocynnau integredig –

**Ffigur 1.18.3**

<b>Gwelliannau yr hoffai trigolion eu gweld:</b>	<b>Dymunol</b>	<b>Blaenoriaeth</b>
Tocynnau integredig	45%	12%
Gwell gwasanaethau trên lleol	41%	14%
Gwell gwybodaeth am deithio	33%	5%
Gwell gwasanaethau trên cenedlaethol	30%	4%
Mwy o safleoedd Parcio a Theithio	21%	6%

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi newid eu defnydd o rai dulliau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nododd ymatebwyr i'r arolwg uchod fod 7% wedi defnyddio mwy ar y rheilffyrdd, tra bod 9% wedi defnyddio llai ar y rheilffyrdd, gan arwain at ostyngiad net yn y defnydd o 2% dros y blwyddyn diwethaf.

Fodd bynnag, dim ond tua 30% o'r holl deithiau rheilffordd yng Nghaerdydd a wneir gan drigolion Caerdydd, ac mae'r gweddill yn dod o'r tu allan (Cyfrifiad 2011 - Dull Teithio i'r Gwaith gan OD). Felly nid yw unrhyw ddirywiad yn y defnydd o reilffyrdd ymhlith trigolion Caerdydd o reidrwydd yn cyfateb i ostyngiad yn y defnydd cyffredinol o reilffyrdd yng Nghaerdydd.

Mae gallu trigolion Caerdydd i ddefnyddio'r trenau ar Gledrau'r Cymoedd wedi'i gyfyngu gan y rhai sy'n teithio i mewn i Gaerdydd o'r rhanbarth, gan fod trenau sy'n dod i mewn fel rheol yn cyrraedd gorsafoedd pellennig Caerdydd heb le i eistedd arnynt yn ystod cyfnod brig y bore.

Dylid nodi bod amserlen y mwyafrif o'r dadansoddiad uchod yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r cyfnod trosiannol wrth drosglwyddo Masnachfaint Rheilffordd Cymru a'r Gororau, rhwng y gweithredwr blaenorol Trenau Arriva Cymru (ATW) a'r gweithredwr newydd 'TfW Rail' fel rhan o'r Metro, ac o'r herwydd mae angen trin dehongliad unrhyw ganlyniadau gyda gofal.

Serch hynny, wrth edrych ymhellach ar ganfyddiadau'r cyhoedd o deithio ar reilffordd, mae 'Arolwg Teithwyr Rheilffyrdd Cenedlaethol 2019' (Passenger Focus) yn galluogi gwneud y gymhariaeth ganlynol o foddhad defnyddwyr ar gyfer gweithredwyr rheilffyrdd Caerdydd (ffigur 1.18.4) –

**Ffigur 1.18.4**

Bodddhad yn ôl gweithredwr:	Cyflwr y trên	Prydlondeb/ Dibynadwyedd	Lefel y Gorlenwi	Cyffredinol
TfW Rail (ATW yn flaenorol)	18/19 = 64%	18/19 = 80%	18/19 = 70%	18/19 = 82%
	19/20 = 65%	19/20 = 80%	19/20 = 71%	19/20 = 82%
	18/19 = 78%	18/19 = 83%	18/19 = 67%	18/19 = 86%
Cross-Country	19/20 = 78%	19/20 = 86%	19/20 = 63%	19/20 = 86%
	18/19 = 77%	18/19 = 70%	18/19 = 72%	18/19 = 81%
	19/20 = 83%	19/20 = 79%	19/20 = 74%	19/20 = 87%

Dengys yr uchod bod lefelau bodddhad dros y flwyddyn ddiwethaf wedi aros yr un fath yn fras, ac eithrio Great Western sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn lefelau bodddhad ar draws pob parth.

Yn yr un modd â'r gyfran teithio ar fws (OB1 EC17), oherwydd ei fod wedi cyflawni'r sbardun eleni ar gyfer dau o'r pum pwrpas teithio a gaiff eu monitro ar reilffordd, bydd angen ystyriaeth fanylach bellach er mwyn pennu'r achosion sylfaenol, a nodi'r camau cywiro angenrheidiol fel sy'n briodol, ar y cyd â'r fethodoleg a ddiffinnir yn y Fframwaith Monitro Trafnidiaeth; fel y nodir yn yr Argymhellion isod.

### Argymhellion

Mewn ymateb i gyflawni'r sbardun, bydd angen cynnal yr ymchwiliadau canlynol ar y cyd â'r fethodoleg fel y nodir yn y Fframwaith Monitro Trafnidiaeth; ac yn unol ag ymrwymadau a wnaed fel rhan o broses Archwilio'r CDLI –

- Mapio Hygyrchedd
- Ymchwiliad i Goridorau
- Aseiad o Gostau Taith

Hefyd cynhelir yr arolygon canlynol –

- Arolygon Nifer sy'n Defnyddio'r Trên
- Arolygon Amser/ Dibynadwyedd Taith Trên



## Maes Testun: Gwelliant mewn Amser Teithio Gyda Bws

**Polisiau CDLI perthnasol:** KP2, KP6, KP8, T1-T9

**Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC19**

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor fynediad at ddata monitro bysiau sy'n cael eu cadw gan weithredwyr, ac felly nid yw'n gallu pennu amseroedd teithiau bws a dibynadwyedd yn uniongyrchol. Felly, bydd lefel boddhad defnyddwyr bysiau o ran amseroedd teithio a dibynadwyedd fel y'i cofnodwyd yn Arolwg Holi Caerdydd, a gaiff ei ddefnyddio unwaith eto fel procsi, nes bydd yr offer monitro gofynnol ar gael. Diffinnir newidiadau cyd-destunol pellach sy'n ymwneud â defnyddio bysiau yn OB1 EC17, EC20 ac EC21.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Lleol</b> Gwelliant mewn amser teithio gyda bws	Gwelliant blynyddol o 1% mewn amseroedd teithio ar goridorau allweddol (Coridor y Gogledd Orllewin, Coridor y Gogledd-ddwyrain, Coridor Dwyreiniol a Choridor Deheuol) o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol	Methiant i gyflawni gwelliant blynyddol mewn amseroedd taith bws o 1% am ddwy flynedd neu fwy yn olynol
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Boddhad Cyhoeddus gydag amser teithio gyda bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2015 = 59.8% 2016 = 62.6% (↑) +2.7%	Boddhad Cyhoeddus gydag amser teithio gyda bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2016 = 62.6% 2017 = 52.1% (↓) -10.5%	Boddhad Cyhoeddus gydag amser teithio gyda bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2017 = 52.1% 2018 = 54.7% (↑) +2.6%
<b>Dadansoddiad</b>		
Bu gwelliant o 2.6% yn y lefel boddhad â theithiau bws dros y flwyddyn ddiwethaf.  Fodd bynnag, mae'r lefel bresennol o foddhad yn is na 2015, tra bu gostyngiad o 10.5% rhwng 2016 a 2017, gan awgrymu bod y duedd gyffredinol o lefel boddhad yn dirywio; er nad yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dirywiad mewn amseroedd teithio gwirioneddol.		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.		

## Maes Testun: Gwelliant mewn Dibynadwyedd Amser Teithio Gyda Bws


**Polisiau CDLI perthnasol:** KP2, KP6, KP8, T1-T9

**Cyfeirnod dangosydd:** OB1 EC20

**Newidiadau Cyd-destunol:** Nid oes gan y Cyngor fynediad at y data monitro bysiau a gedwir gan Fws Caerdydd, ac felly nid ydynt yn gallu pennu amserau teithio bws a dibynadwyedd yn uniongyrchol. Felly, unwaith eto defnyddir lefel boddhad defnyddwyr bws gydag amserau teithio a dibynadwyedd fel y'i cofnodir yn yr Arolwg Holi Caerdydd fel procsi, hyd nes y bydd yr offer monitro angenrheidiol ar gael. Diffinnir newidiadau cyd-destunol pellach sy'n ymwneud â defnyddio bysiau yn OB1 EC17 ac EC21.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Lleol</b> Gwelliant mewn dibynadwyedd amser teithio gyda bws	Gwelliant blynyddol o 1 y cant mewn amseroedd teithio ar goridau allweddol (Coridor y Gogledd Orllewin, Coridor y Gogledd-ddwyrain, Coridor Dwyreiniol a Choridor Deheuol) o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol	Methiant i gyflawni gwelliant blynyddol mewn dibynadwyedd amser teithio gyda bws o 1% am ddwy flynedd neu fwy yn olynol
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Boddhad Cyhoeddus Mewn Dibynadwyedd Amser Teithio Gyda Bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2015 = 50.4% 2016 = 55.2% (↑) +4.8%	Boddhad Cyhoeddus Mewn Dibynadwyedd Amser Teithio Gyda Bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2016 = 55.2% 2017 = 43.9% (↓) -11.3%	Boddhad Cyhoeddus Mewn Dibynadwyedd Amser Teithio Gyda Bws (Arolwg Holi Caerdydd):  2017 = 43.9% 2018 = 46.7% (↑) +2.8%
<b>Dadansoddiad</b>		
Bu gwelliant o 2.8% yn y lefel boddhad dros y flwyddyn ddiwethaf o ran dibynadwyedd amser teithio.		
Fodd bynnag, wrth ystyried y duedd gyffredinol fel y dangosir yn ffigur 1.20.1 isod, mae'n amlwg y bu dirywiad cyffredinol mewn lefel boddhad dros amser, yn cael ei ddangos yn amlwg gan y dirywiad sylweddol o 11% rhwng 2016 a 2017, er nad yw'n glir i ba raddau y mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dirywiad mewn amseroedd teithio gwirioneddol.		

**Ffigur 1.20.1**



**Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Cyflenwi'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol

**Polisiau CDLI perthnasol:** KP2, KP6, KP8, T4

**Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC21**

**Newidiadau Cyd-destunol:** Dechreuwyd dymchwel gorsaf fysiau flaenorol Caerdydd ar 1 Awst 2015, ac yna ailddatblygwyd y Sgwâr Canolog gan y datblygwr Rightacres. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr Hyb Trafnidiaeth Integredig newydd (a elwir bellach yn 'Gyfnewidfa Drafnidiaeth') ym mis Mawrth 2017, i'w adeiladu ar dir gwag a arferai gael ei ddefnyddio gan faes parcio Marland House a Wood Street, a rhagwelwyd i ddechrau y byddai wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, ers yr amser hwn mae natur y datblygiad wedi esblygu'n sylweddol, gyda'r cyfrifoldeb am gyflawni bellach yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r datblygwr Rightacres a Legal & General, tra bod y cyfrifoldeb yn y pen draw am weithredu'r gyfnewidfa newydd wedi'i drosglwyddo i Drafnidiaeth Cymru (TfW) cwmni trafndiaeth dielw/ hyd braich a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Lleol</b> Cyflenwi'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol	Bydd Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gyflenwi erbyn 2018	Methiant i gyflenwi Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn 2018
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ailddatblygu'r Sgwâr Canolog yn mynd yn ei flaen. Caniatâd cynllunio ar gyfer y ganolfan newydd wedi ei roi ym mis Mawrth 2017	Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyflawni'r hyb newydd, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru/TfW, Network Rail a'r datblygwr Right Acres, fel rhan o'r Partneriaeth Cyflenwi Metro (MDP).	Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hwyluso cyflenwi'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth, ynghyd â'i defnyddiau ategol a'r seilwaith cysylltiedig. Rhagwelir ar hyn o bryd y cwblheir y gyfnewidfa yn 2023, er y gall yr orsaf fysiau ei hun ddod yn weithredol cyn hyn yn 2021/2022.
<b>Dadansoddiad</b>		
Mae'r Hyb Trafnidiaeth/Cyfnewidfa newydd yn rhan o ailddatblygiad ehangach y Sgwâr Canolog, sy'n cynnwys Pencadlys newydd BBC Cymru sy'n darparu ar gyfer 1,200 o staff, sydd wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd staff yn cael eu hadleoli yma o'u safle presennol yn Llandaf tua mis Hydref 2019.		

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am gyflawni'r gyfnewidfa newydd mewn partneriaeth â'r datblygwr Rightacres a Legal & General, tra bod y cyfrifoldeb am weithrediad y gyfnewidfa yn y pen draw yn aros gyda Thrafnidiaeth Cymru (TfW).

Ystyriwyd y cais diweddaraf ar gyfer y gyfnewidfa (cyf: 18/01705/MJR) gan y pwyllgor cynllunio ar 7fed o Dachwedd 2018 lle gwnaed penderfyniad i ganiatáu. Fodd bynnag, nid yw'r hysbysiad penderfyniad i ganiatáu'r cais wedi'i gyhoeddi eto, gan nad yw cytundeb A106 wedi'i gwblhau hyd yma, gyda thrafodaethau cymhleth yn parhau i sicrhau buddsoddiad gan y sector preifat.

Mae'r cynnig cyfredol ar gyfer y gyfnewidfa newydd fel a ganlyn –

- 14 stondin bws yn seiliedig ar drefniant gyrru i mewn-bacio'n ôl (DIRO);
- Cyntedd ar y llawr gwaelod yn cynnwys 5 uned fanwerthu fasnachol a chyfleusterau cyhoeddus;
- Bloc swyddfa 6 llawr, wedi'i leoli uwchben y gyfnewidfa;
- Tua 300 o fflatiau preswyl preifat (PRS) i'w rhentu, wedi'u trefnu dros 22 llawr;
- Maes parcio gyda 249 lle wedi'i rannu dros 5 lefel, gyda 225 lle wedi'u dyrannu i'r BBC, a'r 24 sy'n weddill ar gyfer y datblygiad swyddfeydd;
- Darparu 50 lle parcio beiciau ar gyfer y swyddfeydd, gyda 160 lle ar gyfer y fflatiau PRS, a 216 lle at ddefnydd y cyhoedd yn gyffredinol (o'r rhain: 36 o leoedd Nextbike, a 60 o leoedd ar y stryd);
- Gwaith tir y cyhoedd sylweddol a gwella priffyrdd.

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Cyflenwi Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy

**Polisiau CDLI perthnasol:** KP2, KP6, KP8, T4

**Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC22**

**Newidiadau Cyd-destunol:** Mae diffyg argaeledd cyllid a chyfraniadau addas gan ddatblygwyr yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol o ran cyflawni cynlluniau LTP, ac i sicrhau'r seilwaith cynaliadwy sy'n angenrheidiol i gefnogi newid moddol a chyflawni'r egwyddorion Uwchgynllunio a nodir yn y CDLI. Ers cael eu diffinio'n wreiddiol o fewn yr LTP, mae cynlluniau llwybr beicio strategol a rhaglen rhwydwaith cerddedadwy (WNP) a enwyd yn flaenorol wedi cael eu disodli, ac o ganlyniad wedi'u hailddosbarthu isod yn ôl Map Rhwydwaith Integredig Caerdydd (INM), neu fel rhan o un o bum llwybr beicio arfaethedig Caerdydd.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Lleol</b> Darparu seilwaith trafndiaeth gynaliadwy newydd yn cynnwys: Coridorau Bws Cyflym, Hybiau Trafnidiaeth a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol (CTLI) i liniaru effeithiau ar ddatblygiad a chefnogi newid moddol	Paratoi a gweithredu ystod o gynlluniau trafndiaeth gynaliadwy yn cynnwys cynlluniau a bennwyd yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Caerdydd sy'n cefnogi newid moddol a darparu egwyddorion uwchgynllunio sydd yn y CDLI	Methiant i ddarparu projectau a bennwyd yn amserlenni'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a/neu fethiant i ddarparu egwyddorion allweddol cynaliadwy y cyfeirir atynt yn OB4 SN12
Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017	Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018	Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019
POB Cynllun:  Wedi ei gwblhau = 3 (9%) Parhaus = 15 (47%) Dal yn ôl = 14 (44%) CYFANSWM = 32	POB Cynllun:  Wedi ei gwblhau = 9 (17%) Parhaus = 27 (52%) Dal yn ôl = 16 (31%) CYFANSWM = 52	POB Cynllun:  Wedi ei gwblhau = 12 (20%) Parhaus = 32 (53%) Dal yn ôl = 16 (27%) CYFANSWM = 60  Cynlluniau Aml-foddol a Hybiau Trafnidiaeth:  Wedi ei gwblhau = 1 (17%) Parhaus = 5 (83%) Dal yn ôl = 0 (0%) CYFANSWM = 6  Cynlluniau Rhwydwaith Beicio a Theithio Llesol:

		<p>Wedi ei gwblhau = 5 (15%) Parhaus = 17 (52%) Dal yn ôl = 11 (33%) CYFANSWM = 33</p> <p>Cynlluniau Coridor Bysiau Cyflym:</p> <p>Wedi ei gwblhau = 2 (15%) Parhaus = 6 (46%) Dal yn ôl = 5 (38%) CYFANSWM = 13</p> <p>Cynlluniau Gwella Rheilffyrdd:</p> <p>Wedi ei gwblhau = 4 (50%) Parhaus = 4 (50%) Dal yn ôl = 0 (0%) CYFANSWM = 8</p>
--	--	---

### Dadansoddiad

Ni lwyddwyd i gyflenwi bob cynllun o fewn yr amserlenni a nodwyd yn wreiddiol, oherwydd diffyg cyllid ac adnoddau, ynghyd â blaenoriaethau newidiol.

Serch hynny, parhawyd i wneud cynnydd da, gyda 3 chynllun ychwanegol wedi eu cyflenwi ers adrodd ar yr 2il AMB, ynghyd â chyfran uwch o gynlluniau â statws parhaus/wedi'u cwblhau.

Crynohir isod y cynnydd a wnaed yn erbyn cynlluniau seilwaith trafndiaeth cynaliadwy yr LTP a'r CDLI ar gyfer y cyfnod 2015-2019: -

### Cynlluniau Aml-foddol a Hybiau Trafnidiaeth:

Amserlen	Cynllun	Wedi ei gwblhau?	Sylwebaeth
2015-2017	Gwelliannau i gyffordd Heol Casnewydd / West Grove	DO	Cam 1: East Grove/ Howard Place = cwblhawyd 05/05/16; Cam 2a: West Grove/ The Parade = cwblhawyd 25/08/16; Cam 2b: Heol Casnewydd/ West Grove = cwblhawyd 14/03/17; Cam 3: Heol Casnewydd/ Fitzalan

2015-2017	Gwelliannau Beicio a Bws Strategol - Llwybr 6 - Heol Ddwyreiniol y Bont-faen /Heol Orllewinol y Bont-faen & Chylchfan Pont Elái	Parhaus	Cwblhau twcan Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn 2016; cwblhau Pont Afon Elái yn 2017; nawr yn cael ei symud ymlaen fel rhan o ddichonoldeb C5
2015-2021	Gwelliannau i Goridor y Dwyrain [CDLI]	Parhaus	Agorodd Eastern Bay Link rhwng Queensgate a Ocean Way ar 15/06/17 fel 'A4232 Ffordd Ewart Parkinson' gydag asesiad blwyddyn ar ôl y cynllun yn cael ei gynnal; Lôn redeg bwrpasol o'r gogledd i'r de a ddarperir ar Gylchfan Adshel yn 2018; Astudiaeth Coridor y Dwyrain i'w gynnal yn 2019
2015-2026	Parcio a Theithio Strategol - I'r gogledd o'r M4 C33 [CDLI]	Parhaus	P&Th 1,000 o le i'w ddarparu fel rhan o AGC; llinell amser i'w chytuno
2016-2021	Gwelliannau i Ganol y Ddinas - Lonydd Bysiau, Gatiâu Bysiau, Blaenoriaeth Bysiau a Gwelliannau Cyffordd [CDLI]	Parhaus	Sgwâr Canolog: dyluniad manwl parhaus, ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i drefnu yn hydref 2019, y gwaith adeiladu yn dechrau Ionawr 2020; Westgate Street (WGS): dyluniad manwl parhaus, giât fysiau i'w gosod fel rhan o gynllun y Sgwâr Canolog; Teras yr Orsaf (CCE): Cam 2 WelTAG, dyluniad parhaus, ymgynghoriad wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2020 gyda'r gwaith adeiladu i ddechrau'r Gwanwyn/ Haf 2020; Heol y Castell (CCN): Targed cydymffurfio Ansawdd Aer wedi'i osod, dyluniad wedi'i brofi i gyflawni'r targed, ymgynghoriad Hydref 2019, y gwaith adeiladu i fod i ddechrau Chwefror 2019 (yn amodol ar gyllid); Astudiaeth Grangetown-Glan-yr-afon: dechreuwyd ar y gwaith dichonoldeb (i'w gwblhau ym



			mis Awst 2019), gwaith dylunio i'w gwblhau Tachwedd 2019 ar gyfer gosodiadau cyntaf yn 2020-2021
2017-2022	Hyb UHW	Parhaus	Derbyniwyd cymeradwyaeth cynllunio, cwblhawyd y dyluniadau

### Cynlluniau Rhwydwaith Beicio a Theithio Llesol:

Amserlen	Cynllun	Wedi ei gwblhau?	Sylwebaeth
2015-2016	Gwelliannau Cerddwyr INM (WNP yn flaenorol) - Llanrhymni, Llaneirwg a Threlái a Chaerau (Cam 1)	DO	Cwblhawyd Cam 1 yn 2015/2016; Cwblhawyd Cam 2 yn 2016/2017; Cwblhawyd Cam 3 yn 2017/2018
2015-2016	Gwelliannau Beicio Strategol INM - Llwybr 5 - Coridor Ffordd Penarth - Cam 2	DO	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2015
2015-2016	Gwelliannau Beicio Strategol INM - Llwybr 50 - Wood St-Leckwith Rd	DO	Cynllun wedi'i gwblhau yn 2015
2015-2016	Gwelliannau Beicio Strategol INM [146] - Llwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd (NCCR) - Cam 4	Dal yn ôl	Dim cynnydd hyd yma
2016-2017	Gwelliannau Cerddwyr INM (WNP yn flaenorol) - Sblot (Cam 1), Grangetown ac Ystum Taf.	Parhaus	Cynlluniau SRIC Sblot wedi'u gweithredu; Cynlluniau Grangetown wedi'u nodi a'u hariannu i'w cyflawni yn 2019/2020; gweithredu rhai gwelliannau SRIC yn Ystum Taf
2016-2017	Gwelliannau Beicio Strategol INM [119] - Llwybr 34 – Doc Bute Llwybr Troed Defnydd a Rennir	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2016-2017	Gwelliannau Beicio Strategol INM [120] - Llwybr 34 -	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd

	Doc Dwyreiniol Bute-Hemingway Rd		
2016-2017	Gwelliannau Beicio Strategol INM [121] - Llwybr 34 - Sanquahar/ Windsor Rd	Parhaus	Mae croesfan newydd wedi'i rhoi ar waith; uwchraddio'r trac beicio yn symud ymlaen fel rhan o C3
2017-2018	Gwelliannau Cerddwyr INM (WNP yn flaenorol) - Llanisien & Phentwyn (Cam 1)	Parhaus	Cael ei weld yng ngoleuni datblygiad Gogledd Ddwyrain Caerdydd
2017-2018	Gwelliannau Cerddwyr INM (WNP yn flaenorol) - Llanrhymni (Cam 2)	Parhaus	Cael ei ystyried fel rhan o Astudiaeth Coridor y Ddwyrain
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [135] - Llwybr 9 - Pantbach Road	Dal yn ôl	Dim cynnydd hyd yma
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [26] - Llwybr 6 – Heol Orllewinol y Bont-faen/Vincent Rd	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o ddichonoldeb C5
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [27] - Llwybr 6 - Grand Avenue	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o ddichonoldeb C5
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [45A] - Llwybr 9 - Heol y Gogledd rhwng Gabalfa & St Georges Rd	DO	Cynllun wedi'i gwblhau
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [96B] - Llwybr 9 – Pont droed dros Western Av gyda Chyfnwidfa Gabalfa	Dal yn ôl	Dim cynnydd hyd yma
2017-2018	Gwelliannau Beicio Strategol INM [96C] - Llwybr 80 - Excelsior Road, Llwybr Taf	Parhaus	Dylunio ac asesu fel rhan o Heol y Gogledd Cam 2

2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas - Adam Street gel pont y rheilffordd	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas - Adam Street ger USW	Parhaus	I'w ystyried fel rhan o C3
2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas – Ffordd Churchill /Heol y Bont	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o welliannau 'Dwyrain' Canol y Ddinas (CCE)
2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas - Custom House Street ger Hope Street	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas – Gwrthlif Mill Lane	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2018-2019	Gwelliannau Beicio Canol y Ddinas - Heol y Gogledd/ Boulevard De Nantes i Heol y Castell	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o welliannau 'Dwyrain' Canol y Ddinas (CCE)
2018-2019	Gwelliannau Cerddwyr a Beicio Canol y Ddinas - Mill Street/Stryd Tredegar	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2018-2019	Gwelliannau Cerddwyr INM (WNP yn flaenorol) - Llaneirwg, Trelái, Caerau & Sblot (Cam 2)	DO	Cynlluniau WNP/ SRIC wedi'u cwblhau
2018-2019	Gwelliannau Beicio Strategol INM - Llwybr 35 – Cyswllt Canolog/Adam Street	Dal yn ôl	Ddim yn symud ymlaen ar hyn o bryd
2018-2019	Gwelliannau Beicio Strategol INM - Llwybr 50 - Plaza at Orsaf Trenau Ganolog Caerdydd	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o welliannau 'Gorllewin' y Sgwâr Canolog a Chanol y Ddinas (CCW)
2018-2019	Gwelliannau Beicio Strategol INM -	Parhaus	Cael ei symud ymlaen fel rhan o welliannau 'Gogledd' Canol y Ddinas (CCN)

	Llwybr 6 - Heol y Castell		
2018-2019	Gwelliannau Beicio Strategol INM [21A] - Llwybr 5 - Heol Penarth Rhwng y Bont & Tresillian Way	Dal yn ôl	Dim cynnydd hyd yma
2018-2021	Lonydd Beicio Caerdydd C1 - Cam 1 - Canol y Ddinas i Ysbyty'r Heath (yn cynnwys Llwybr 1)	Parhaus	Senghennydd Road - Yn cael eu hadeiladu, disgwylir eu cwblhau ym mis Medi 2019
2018-2021	Lonydd Beicio Caerdydd C2 - Canol y Ddinas i Barc Busnes Llaneirwg (yn cynnwys Llwybr 3)	Parhaus	Dylunio ac asesu ar y gweill
2018-2021	Lonydd Beicio Caerdydd C3 - Canol y Ddinas i Fae Caerdydd (yn cynnwys Llwybr 34)	Parhaus	Dylunio ac asesu ar y gweill
2018-2021	Lonydd Beicio Caerdydd C4 - Canol y Ddinas i Llandaf, Danescourt & G-O Caerdydd	Parhaus	Dichonoldeb ar y gweill
2018-2021	Lonydd Beicio Caerdydd C5 - Canol y Ddinas i Glan-yr-afon, Trelái & Chaerau (yn cynnwys Llwybr 6/50)	Parhaus	Dichonoldeb ar y gweill

#### Cynlluniau Coridor Bysiau Cyflym:

Amserlen	Cynllun	Wedi ei gwblhau?	Sylwebaeth
2015-2016	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A469 Cam 1 - St Georges Road i Birchgrove Road [CDLI]	Dal yn ôl	Yn amodol ar gyllid

2015-2016	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A470 – Keysham Road i Birchgrove Road	DO	Cyflenwyd Ch4 2016-2017
2015-2016	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A470 – Caedelyn Road i Ty'n-y-Parc Road	Parhaus	Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu ar y safle yn 2020/2021
2016-2017	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A469 Cam 2 - Birchgrove Road i Maes-y-Coed Road	DO	Cyflenwyd yn 2016/2017
2016-2022	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A469 Cam 3 – I'r gogledd o Maes-y-Coed Road [CDLI]	Parhaus	Dyluniadau cysyniad yn cael eu hystyried
2016-2022	Coridor bws y Gogledd-ddwyrain - A470 - Gabalfa/Ysbyty'r Heath i Ganol y Ddinas [CDLI]	Dal yn ôl	Ddim yn cael ei ystyried yn weithredol ar hyn o bryd
2016-2026	Lonydd Bysiau Rhan-amser ar Lwybrau Strategol [CDLI]	Dal yn ôl	Ni fu eu hangen eto ond efallai y bydd eu hangen pan fydd gwrthdaro â gofynion parcio
2017-2018	Coridor Bws y Dwyrain - A48 Gwelliannau Lôn Bysiau Eastern Avenue Rhwng Cyfnewidfa Pentwyn & Chyfenwidfa Pontpennau [CDLI]	Dal yn ôl	Ddim yn cael ei ystyried yn weithredol ar hyn o bryd
2017-2020	Coridor Bysiau'r Gogledd Orllewin - A4119 Ffordd Llantrisant - Cam 2 [CDLI]	Parhaus	Cam 2A wedi'i gwblhau yn 2017; Cam 2B & 2C wedi'i gwblhau ym Mehefin 2018; disgwylir Cam 2D (Pen-Hill) ar-safle yn Ch4 2019/2020
2017-2021	Cyfnewidfa Gorllewin Caerdydd/ Waun Gron	Parhaus	Yn disgwyl am gais cynllunio

2017-2021	Coridor Bws y De - Cyswllt Morglawdd Bae Caerdydd (Bro Morgannwg) [CDLI]	Parhaus	Arolygon strwythurol wedi'u cwblhau; cwblhawyd yr ymgynghoriad; Dechreuodd Cam 2 WelTag ar Gyswllt Penarth Headlands yn cynnwys Safle P&Th 500 lle
2017-2026	Coridor Bws y Gogledd Ddwyrain - Lôn Fysiau a Gwelliannau Blaenoriaethol o amgylch Gogledd Ddwyrain Caerdydd [CDLI]	Parhaus	Nodi opsiynau, yn disgwyl am gais cynllunio
2018-2023	Coridor Bws y Gogledd Orllewin - A4119 Capel Llanilltern	Dal yn ôl	Ddim yn cael ei ystyried yn weithredol ar hyn o bryd

#### Cynlluniau Gwella Rheilffyrdd:

Amserlen	Cynllun	Wedi ei gwblhau?	Sylwebaeth
2015-2017	Mynedfa i'r Platfform a'r Adeilad Newydd yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd (Network Rail) [CDLI]	DO	Agorwyd yn Ionawr 2017
2015-2017	Mynedfa i'r Platfform a'r Adeilad Newydd yng ngorsaf Heol-y-Frenhines Caerdydd (Network Rail) [CDLI]	DO	Cwblhawyd y gwaith yn 2015
2015-2019	Gwelliannau Mynediad, Arwyddion a Gwybodaeth Gorsaf Reilffordd (TfW) [CDLI]	Parhaus	Cyfrifoldeb am gyflenwi gyda TfW fel rhan o'r Metro
2016-2017	Cynllun Gwelliannau Gorsaf Metro (MSIP) - Gorsaf Llandaf (TfW) [CDLI]	DO	Cwblhawyd y gwaith yn 2017

2016-2017	Cynllun Gwelliannau Gorsaf Metro (MSIP) - Gorsaf Radur (TfW) [CDLI]	DO	Cwblhawyd y gwaith yn 2017
2016-2020	Trydaneiddio Prif Lein Great Western De Cymru (TfW) [CDLI]	Parhaus	Cwblhawyd yr holl waith pontydd cysylltiedig rhwng 2016-2018. Gosod offer lein uwchben i ddechrau cyn bo hir. Rhagwelir y bydd yn cael ei ddarparu ym mis Rhagfyr 2019, a disgwylir y gwasanaethau trydan 1af ym mis Ionawr 2020
2016-2024	Trydaneiddio Cledrau'r Cymoedd Craidd (TfW) [CDLI]	Parhaus	Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflenwi i TfW fel rhan o'r Metro
2018-2033	Rhaglen Cyflenwi Strategaeth Metro Rail [CDLI]	Parhaus	Trafodaethau ar raglen yn digwydd ar hyn o bryd gyda TfW
<b>Argymhellion</b>			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

## Maes Testun: CCA Ffryntiadau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog

Polisiâu CDLI perthnasol: R3

Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC23

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> CCA Ffryntiadau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Mae'r CCA Ffryntiadau a Ddiogelir yr Ardal Siopa Ganolog i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Mawrth 2018.	Cynigir peidio â symud ymlaen â CCA Ffryntiadau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog ar hyn o bryd. Cyfeirier at y Ddadansoddiad (isod).	Cynigir peidio â symud ymlaen â CCA Ffryntiadau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog ar hyn o bryd. Cyfeirier at y Ddadansoddiad (isod).
<b>Dadansoddiad</b>		
<p>Mae nifer y defnyddiau Dosbarth A1 (Siop) o fewn Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir yn cael eu monitro fel rhan o'r AMB Perfformiad (Dangosydd OB1 EC11). Dangosodd canlyniadau arolwg eleni bod nifer y ffryntiadau â 50% neu fwy o ddefnyddiau Dosbarth A1 yn parhau i fod yn gryf ar 98.1%, o'u mesur yn erbyn y dangosydd hwn.</p> <p>Gan ystyried lefel y manylder a'r meini prawf asesu a nodwyd trwy Bolisiâu CDL R2 (Datblygu yn yr Ardal Siopa Ganolog) ac R3 (Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir), yn ychwanegol at ganllawiau pellach a ddarparwyd trwy'r CCA Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden mabwysiedig, ni chredir ei bod yn angenrheidiol cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud yn benodol â Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol i fonitro os y bydd unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol yn digwydd yn y dyfodol.</p>		
<b>Argymhellion</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Peidio â symud ymlaen â CCA Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog ar hyn o bryd.</li> <li>Monitro Perfformiad AMB 'OB1 EC11', i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol i Ffryntiadau Siopau a Ddiogelir yn yr Ardal Siopa Ganolog yn ystod y cyfnod monitro.</li> </ul>		



## Maes Testun: CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion

Polisiau CDLI perthnasol: KP5

Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC24

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Mae'r CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgyngori cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017	Paratowyd CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion drafft ac mae'n cael ei baratoi/ei gwblhau yn fewnol cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.	Cymeradwywyd y CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion gan y Cyngor ar 20 <sup>fed</sup> Mehefin 2019.
<b>Dadansoddiad</b>		
Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd/ Rhagfyr 2018 cymeradwywyd y drafft terfynol o'r CCA Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion gan y Cyngor ar 20 <sup>fed</sup> Mehefin 2019.		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu.		

## Maes Testun: CCA Diogelu Tir ac Eiddo Cyflogaeth

Polisiau CDLI perthnasol: EC1, EC3

Cyfeirnod dangosydd: OB1 EC25

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> CCA Diogelu Tir ac Eiddo Cyflogaeth ar gyfer Busnes a Diwydiant a Warysau		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Cyhoeddwyd y CCA Diogelu Tir ac Eiddo Cyflogaeth ar gyfer Busnes a Diwydiant a Warysau ar gyfer ymgyngoriad cyhoeddus ym mis Mehefin 2017 ac mae i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Hydref 2017	Cymeradwywyd y CCA Diogelu Tir ac Eiddo Cyflogaeth ar gyfer Busnes a Diwydiant ym mis Tachwedd 2017	Cymeradwywyd y CCA Diogelu Tir ac Eiddo Cyflogaeth ar gyfer Busnes a Diwydiant ym mis Tachwedd 2017
<b>Dadansoddiad</b>		
Cymeradwywyd y CCA gan y Cyngor ar 30ain Tachwedd 2017 ac fe'i ystyriwyd yn yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd ers y dyddiad hwnnw. O ystyried hyn, nid oes angen parhau i fonitro'r dangosydd hwn ond bydd y Cyngor yn parhau i asesu effeithiolrwydd y CCA a fabwysiadwyd.		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu.		

## Amcan 2 – Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt

### Maes Testun: Cyflenwad Tir ar Gyfer Tai

Polisiâu CDLI perthnasol: KP1

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO1

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>CRAIDD</b> Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bresennol (TAN1)	Cynhelir cyflenwad o 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer datblygiad preswyl drwy gyfnod y Cynllun.	Cofnodir cyflenwad o lai na 5 mlynedd o dir preswyl ar gyfer pob un blwyddyn.
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>		<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>
Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai cyfredol (1af Ebrill 2017) yw 3.6 blwyddyn	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai cyfredol (1af Ebrill 2018) yw 3.5 blwyddyn.	Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 1af Ebrill 2019 yn cael ei baratoi ar hyn o bryd
<b>Dadansoddiad</b>		
<p><u>TAN1/Methodoleg Weddilliol</u></p> <p>Mae'n bwysig pwysleisio bod y Cyngor yn credu bod mwy o dir ar gael i'w ddatblygu mewn gwirionedd na'r ffigwr sy'n deillio o'r dull methodoleg gweddilliol anhyblyg a ragnodir yn y TAN, sydd wedi'i seilio'n unig ar ffigwr tai y CDLI yn hytrach na chymryd i ystyriaeth gyfraddau adeiladu'r gorffennol. Yn hyn o beth, dylid nodi mai'r banc tir presennol (safleoedd dros 10 uned) yw 24,936 o anheddau, sy'n cymharu â 10,839 o anheddau sy'n cwrdd â gofynion proses adrodd JHLAS. Nid yw llawer o dir, tra'i fod ar gael yn ffisegol yng Nghaerdydd, yn gymwys i'w gynnwys yn y cyfrifiad 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd sy'n amodol ar lofnodi cytundeb A106<sup>1</sup> (214 uned) neu safleoedd gyda chaniatâd wedi'i gategoreiddio fel un a gyfyngir i gategorïau C3/C4 (13,883 uned). Nid yw'r categorïau hyn yn gymwys i'w cyfrif yn y JHLAS, ond gallant ychwanegu'n sylweddol (gwerth tua 4.2 mlynedd o dir) at y cyflenwad swyddogol o 3.5 mlynedd.</p>		

<sup>1</sup> Pan fydd cytundeb Adran 106 yn parhau i fod heb ei lofnodi am fwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio

Er na chaniateir hyn bellach, arferai TAN1 ganiatáu cymharu'r cyflenwad tir presennol â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol. Cyflwynwyd y fethodoleg cyfradd adeiladu'r gorffennol yn 1992 gan PPG3 (Cymru) i ymdrin ag achosion lle nad yw'r cyfrifiad gweddilliol yn adlewyrchu'r cyflenwad yn gywir. Mae cymhariaeth â chyfradd adeiladu'r 10 mlynedd diwethaf a'r gyfradd adeiladu 5 mlynedd yn darparu ffigyrau cyflenwi tir ar gyfer Caerdydd o 14.5 mlynedd a 15.9 mlynedd, yn y drefn honno. Er y derbynnir y gallai'r cyfnodau adeiladu hyn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, serch hynny mae'n cynnig persbectif defnyddiol.

### Myfyrwyr

Yn hanesyddol, roedd llety myfyrwyr preifat yn gymwys i'w gynnwys yng nghyflenwad tir 5 mlynedd Caerdydd. Dyma oedd yr arferiad, gan fod myfyrwyr sy'n byw mewn llety myfyrwyr preifat wedi'u cynnwys yn y gofyniad anheddau sy'n sail i'r cynllun datblygu. Mae'r math hwn o lety hefyd yn lleihau'r pwysau ar y sector rhent preifat traddodiadol gan gyfrannu at y stoc cyffredinol. Cyflwynodd canllawiau diwygiedig TAN1 (Ionawr 2015) amod mai dim ond anheddau o fewn diffiniad Gorchymyn Dosbarth Defnydd C3 y gellir eu cyfrif tuag at y cyflenwad. Mae hyn yn cyfyngu ar lety myfyrwyr o'r JHLAS, a ystyrir yn Sui Generis yn hytrach na C3. Mae'r sector hwn wedi darparu ffynhonnell bwysig o lety yng Nghaerdydd dros y 15 mlynedd diwethaf, ac mae wedi cynyddu'n ddiweddar. Er mwyn rhoi arwydd o raddfa, roedd oddeutu 480 o unedau myfyrwyr yn gymwys i'w cynnwys yng nghyflenwad 5 mlynedd Caerdydd yn JHLAS 2014. Rhwng 1af Ebrill 2014, a 1af Ebrill 2016, cymeradwywyd 1,699 o unedau ychwanegol pellach (2,975 o leoedd gwely). Yn nodweddiadol, mae'r cynlluniau hyn wedi'u hadeiladu'n rhwydd heb brofi'r oedi sy'n effeithio ar gynlluniau preswyl traddodiadol. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos cryfder pellach y farchnad llety myfyrwyr yng Nghaerdydd.

Daeth y TAN1 diwygiedig i rym ar ôl cyflwyno CDLI Caerdydd ar gyfer Archwiliad, ac ni ragwelwyd y newid Polisi hwn gan nad oedd yn rhan o'r cynigion ymgynghori. O'r herwydd, mae rhagamcanion aelwydydd yn y CDLI mabwysiedig, a'r gofyniad anheddau dilynol (41,415) yn ystyried gofynion myfyrwyr sy'n byw mewn llety preifat, ond ni all llety myfyrwyr newydd gyfrannu'n dechnegol i'r cyflenwad. Cydnabu'r Arolygwyr y mater hwn yn ystod yr Archwiliad y CDLI, fel yr adroddwyd ym mharagraffau 4.18 a 4.19 o Adroddiad yr Arolygwyr. Bydd angen gwaith yn y dyfodol i ymdrin â'r mater hwn o gysoni galw a chyflenwi myfyrwyr cyn y broses o adolygu'r Cynllun.

### Oedi Tymor-byr ar Safleoedd Strategol

Ar gyfer y cyfnod JHLAS cyfredol (2019-2023) roedd rhagolygon cwblhau yn gyfystyr â chyfraniad cyfunol o 7,835 o unedau ar safleoedd strategol. Rhagwelir y byddai 4,026 uned arall yn cael eu cwblhau cyn yr Astudiaeth, rhwng 2015 a 2018. Yn ystod y broses JHLAS eleni, derbyniodd y Cyngor ragolygon diwygiedig ar gyfer pob safle strategol sy'n cynrychioli cyfanswm o 6,235 o gyfraniadau dros y cyfnod 2019-2023. gan arwain at gollu 1,600 o unedau o'r cyflenwad 5 mlynedd disgwylidig, sy'n cyfateb i tua 0.5 mlynedd o gyflenwad. Yn yr un modd, dim ond 326 o anheddau a gwblhawyd hyd yma ar safleoedd strategol, sef diffyg o 3,700 o anheddau wedi'u cwblhau a ragwelwyd dros y cyfnod, sy'n cynrychioli 1.1 flwyddyn. O dan y dull gweddilliol, mae unrhyw ddiffyg yn y nifer o anheddau y disgwylir eu cwblhau yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad (gofyniad gweddilliol) gan ei gwneud yn anoddach cyflawni cyflenwad 5 mlynedd.

Mae'r rhesymau dros oedi yn amrywio o safle i safle, ond mae'r dyddiadau cychwyn cyffredinol wedi llithro ar ôl mabwysiadu. Y mae'r Cyngor o'r farn bod yr oedi hwn yn rhannol gyfrifol o leiaf am y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai 5 mlynedd yng Nghaerdydd, ac nad yw Caerdydd yn wynebu mater cyflenwi mewn gwirionedd, ond yn hytrach, her o gyflenwi lle nad yw'r sector datblygu yn cyflenwi'r cyfraddau a ragwelwyd yn flaenorol.

### Persbectif Cenedlaethol

Dylid nodi nad yw'r diffyg cyflenwad 5 mlynedd yng Nghaerdydd yn eithriad pan y'i ystyrir yng nghyd-destun Cymru gyfan; mae llawer o ACLI'au wedi profi sefyllfaoedd cyflenwi tir tebyg, ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Yn 2013, 2014 a 2015, yn y drefn honno, roedd gan 18 ACLI (72%) gyflenwad tir ar gyfer tai a oedd yn llai na 5 mlynedd. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella dros amser, gyda 19 ACLI yn cofnodi cyflenwad tir is na 5 mlynedd yn 2016. Hefyd gostyngodd y cyflenwad tir cyfartalog ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn, o 4.3 blynedd yn 2013 i 2.5 mlynedd erbyn 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr anhawster cyffredinol o ran dangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai ar draws ACLIau Cymru, ac mae wedi cynnal ymchwil i'r materion sy'n ymwneud â chyflenwi. Er ei bod yn ymddangos bod hyfywedd yn ffactor allweddol ledled Cymru, mae ffactorau sylfaenol eraill yn amlwg yng Nghaerdydd, fel y disgrifir uchod.

### **Casgliad**

Mae'r Cyngor hwn wedi nodi nifer o resymau sylfaenol y mae'n credu allai fod yn arwyddocaol wrth ystyried ffigwr diweddaraf yr argaeledd tir ar gyfer tai a nodir yn JHLAS 2018. Mae'r Cyngor o'r farn bod y ffactorau technegol hyn yn ystumio'r realiti o gyflenwad tai llawer iachach sy'n bodoli mewn gwirionedd, a her allweddol yw gallu'r sector tai i ddarparu'n effeithiol y cyfraddau adeiladu a hyrwyddir yn ystod proses archwilio'r CDLI. Er gwaethaf dadgymhwyso diweddar baragraff 6.2 o TAN1, dylid ystyried y ffactorau hyn wrth briodoli pwysau i'r ffigwr 5 mlynedd o gyflenwad at ddibenion penderfynu ar geisiadau cynllunio.

Ystyrir bod y Cyngor yn rhagweithiol wrth ddilyn y dull galluogi a nodir gan Lywodraeth Cymru, ac mae deialog bositif yn cael ei chynnal gyda'r sector datblygu er mwyn cyflawni amcanion y ddwy ochr o gyflenwi dull a arweinir gan y cynllun. Bydd adolygiad parhaus o dystiolaeth newydd drwy'r broses AMB yn helpu i sicrhau bod y sefyllfa cyflenwi tir yn parhau i gael ei monitro'n agos.

### **Argymhellion**

Er ei bod yn amlwg bod 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor yn cysylltu â pherchnogion tir a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi tafl-lwybr gwell o ddarpariaeth ar Safleoedd Strategol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogol hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd.

## Maes Testun: Nifer o Anheddau Marchnad Cyffredinol a Adeiladwyd

Polisiâu CDLI perthnasol: KP1

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO2

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>CRAIDD</b> Nifer yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd	Darparu 22,555 net o anheddau marchnad cyffredinol dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun yn unol â'r targedau 2 flynedd cronol a welir isod: 2016: 2,495 2018: 4,096 2020: 4,153 2022: 4,042 2024: 4,010 2026: 3,759	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Y cyfanswm nifer o anheddau marchnad cyffredinol a adeiladwyd yn ystod 2014/15 oedd 377.  Y cyfanswm nifer o anheddau marchnad cyffredinol a adeiladwyd yn ystod 2015/16 oedd 489.  Cyfanswm cyfunol yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd erbyn 1af Ebrill 2016 oedd 866.	Y cyfanswm nifer o anheddau marchnad cyffredinol a adeiladwyd yn ystod 2016/7 oedd 547.  Y cyfanswm nifer o anheddau marchnad cyffredinol a adeiladwyd yn ystod 2017/18 oedd 636.  Cyfanswm cyfunol yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd erbyn 1af Ebrill 2018 oedd 1,183.	Y cyfanswm nifer o anheddau marchnad cyffredinol a adeiladwyd rhwng 1af Ebrill 2018 a 31ain Mawrth 2019 oedd 1,135.  Cyfanswm cyfunol yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd hyd yn hyn felly yw 3,184.
<b>Dadansoddiad</b>		

Dyma'r drydedd flwyddyn y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol a dyma'r trydydd AMB i'w baratoi. Felly mae'r CDLI yn dal i fod ar gam cynnar o'i oes ac mae AMB eleni yn darparu cymhariaeth tymor byr i'r AMB a gynhyrchwyd yn 2018.

Y cyfanswm targed cronus ar gyfer 2018 (2016 - 2,495 a 2018 - 4,096) oedd 6,591 o anheddau marchnad cyffredinol i'w hadeiladu erbyn 1af Ebrill 2018. Hyd yma, mae 2,049 o anheddau marchnad cyffredinol wedi'u hadeiladu.

Ystyrir bod cynnydd da wedi'i wneud ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 gyda'r mwyafrif o Safleoedd Strategol gyda chaniatâd cynllunio, ac mae nifer yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hefyd amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar y gyfradd o adeiladu anheddau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/pwyntiau technegol cyfreithiol rhwng y datblygwyr a thirfeddianwyr a hefyd y cymhlethdod i sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y nodir yn y CDLI.

### **Argymhellion**

Ni ystyrir y byddai methu â chyflawni'r nifer gofynnol o anheddau marchnad cyffredinol am bob cyfnod 2 flynedd yn rhoi achos dros adolygu'r CDLI. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ac mae cyfradd yr adeiladu yn cynyddu o'i chymharu â chyfanswm cronus y 2 flynedd flaenorol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â thirfeddianwyr a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi'r gwell taflwybr o ddarpariaeth ar Safleoedd Strategol, yn ogystal â datblygu amrywiaeth o safleoedd hap tir llwyd ychwanegol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogol hwn dros amser yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth. Bydd AMBau yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd a bydd cyfraddau cyflenwi'n cael eu monitro'n ofalus.

## Maes Testun: Nifer o Anheddau Fforddiadwy a Adeiladwyd

Polisiau CDLI perthnasol: KP1, KP2, KP4, KP13, H3

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO3

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>CRAIDD</b> Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd (TAN2)	Darparu 6,646 o unedau fforddiadwy net dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun (yn cynrychioli cyfartaledd o 22.8% o'r ddarpariaeth dai gyfan).  Isod gweler y gyfradd gyflenwi ddisgwyliedig i gwrdd â'r targed: 2016: 735 2018: 1,207 2020: 1,224 2022: 1,191 2024: 1,181 2026: 1,108	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.
Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017	Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018	Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019
Y cyfanswm o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2014/15 oedd 105.  Y cyfanswm o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2015/16 oedd 244.  Y cyfanswm cyfun o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd erbyn 1af Ebrill 2016 oedd 349.	Y cyfanswm o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2016/17 oedd 230.  Y cyfanswm o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2017/18 oedd 194.  Y cyfanswm cyfun o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd erbyn 1af Ebrill 2018 oedd 424.	Y cyfanswm o'r holl anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2018/19 oedd 309.  Y cyfanswm cyfun o'r holl anheddau fforddiadwy a adeiladwyd hyd yma felly yw 1,082.
Dadansoddiad		



Dyma'r drydedd flwyddyn y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol a dyma'r trydydd AMB i'w baratoi. Felly mae'r CDLI yn dal i fod ar gam cynnar o'i oes ac mae AMB eleni yn darparu cymhariaeth tymor byr i'r AMB a gynhyrchwyd yn 2018.

Y cyfanswm targed cronus ar gyfer (2016 - 735 a 2018 – 1,207) oedd 1,942 o anheddau fforddiadwy i'w hadeiladu erbyn 1af Ebrill 2018. Hyd yma mae 1,082 o anheddau fforddiadwy wedi'u hadeiladu.

Ystyrir bod cynnydd da wedi'i wneud ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 gyda'r mwyafrif o Safleoedd Strategol gyda chaniatâd cynllunio, ac mae nifer yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hefyd amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar y gyfradd o adeiladu anheddau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/pwyntiau technegol cyfreithiol rhwng y datblygwyr a thirfeddianwyr a hefyd y cymhlethdod i sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y nodir yn y CDLI.

### **Argymhellion**

Ni ystyrir y byddai methu â chyflawni'r nifer gofynnol o anheddau fforddiadwy am bob cyfnod 2 flynedd yn rhoi achos dros adolygu'r CDLI. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ac mae cyfradd yr adeiladu yn cynyddu o'i chymharu â chyfanswm cronus y 2 flynedd flaenorol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â thirfeddianwyr a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi'r gwell taflwybr o ddarpariaeth ar Safleoedd Strategol, yn ogystal â datblygu amrywiaeth o safleoedd hap tir llwyd ychwanegol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogol hwn dros amser yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth. Bydd AMBau yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd a bydd cyfraddau cyflenwi'n cael eu monitro'n ofalus.

## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd Bob Blwyddyn

Polisiau CDLI perthnasol: KP1

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S04

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>CRAIDD</b> Anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn (bob annedd)	Darparu 29,201 o anheddau dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun yn unol â'r targedau 2 flynedd cronol sydd i'w gweld isod: 2016: 3,230 2018: 5,303 2020: 5,377 2022: 5,233 2024: 5,191 2026: 4,866	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Y cyfanswm o'r holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2014/15 oedd 482.	Y cyfanswm o'r holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2016/17 oedd 777	Y cyfanswm o'r holl anheddau a adeiladwyd erbyn 1af Ebrill 2019 oedd 1,444.
Y cyfanswm o'r holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2015/16 oedd 733.	Y cyfanswm o'r holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2017/18 oedd 830	Y cyfanswm o'r holl anheddau a adeiladwyd hyd yma felly yw 4,266.
Y cyfanswm cyfun erbyn 1af Ebrill 2016 oedd 1,215.	Y cyfanswm cyfun erbyn 1af Ebrill 2018 oedd 1,607.	
<b>Dadansoddiad</b>		
<p>Dyma'r drydedd flwyddyn y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol a dyma'r trydydd AMB i'w baratoi. Felly mae'r CDLI yn dal i fod ar gam cynnar o'i oes ac mae AMB eleni yn darparu cymhariaeth tymor byr i'r AMB a gynhyrchwyd yn 2018.</p> <p>Cyfanswm y targed cronus ar gyfer 2018 (2016 – 3,230 + 2018 – 5,303) oedd adeiladu 8,533 o anheddau erbyn 1af Ebrill 2018, ac adeiladwyd 4,266 o anheddau.</p>		

Ystyrir bod cynnydd da wedi'i wneud ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Ionawr 2016 gyda'r mwyafrif o Safleoedd Strategol gyda chaniatâd cynllunio, ac mae nifer yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hefyd amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar y gyfradd o adeiladu anheddau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/pwyntiau technegol cyfreithiol rhwng y datblygwyr a thirfeddianwyr a hefyd y cymhlethdod i sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y nodir yn y CDLI.

### **Argymhellion**

Ni ystyrir y byddai methu â chyflawni'r nifer gofynnol o anheddau fforddiadwy am bob cyfnod 2 flynedd yn rhoi achos dros adolygu'r CDLI. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI ac mae cyfradd yr adeiladu yn cynyddu o'i chymharu â chyfanswm cronnus y 2 flynedd flaenorol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â thirfeddianwyr a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi'r gwell taflwybr o ddarpariaeth ar Safleoedd Strategol, yn ogystal â datblygu amrywiaeth o safleoedd hap tir llwyd ychwanegol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogol hwn dros amser yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth. Bydd AMBau yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd a bydd cyfraddau cyflenwi'n cael eu monitro'n ofalus.

## Maes Testun: Nifer o Unedau Hap Wedi Eu Cwblhau

Polisiau CDLI perthnasol: KP1

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S05

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>CRAIDD</b> Nifer o unedau hap wedi eu cwblhau fesul blwyddyn ar bob safle	Y targed blynyddol o gyfraniadau hap a ragwelir i gyd ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun - 488 annedd bob blwyddyn.	Mae'r cyflenwad yn amrywio o fwy na 10% yn uwch neu'n is na 488 o anheddau'r flwyddyn am unrhyw gyfnod o 2 flynedd yn olynol.
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Y cyfanswm o gyfraniadau hap yn ystod 2016/17 oedd 449 o anheddau.	Y cyfanswm o gyfraniadau hap yn ystod 2017/18 oedd 401 o anheddau.	Y cyfanswm o gyfraniadau hap yn ystod 2018/19 oedd 737 o anheddau.
<b>Dadansoddiad</b>		
Yn ystod y cyfnod monitro 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019, cwblhawyd 737 o anheddau a oedd yn cael eu hystyried yn safleoedd 'hap' gan eu bod yn fwy na 10 o anheddau, nad oeddent yn ganlyniad i newid defnydd, ac nad oeddent yn rhan o safle dyranedig y CDLI. Mae'r 737 uned hap a gwblhawyd tu allan i'r glustogfa o 10% a nodir yn y sbardun. Fodd bynnag, gan fod y sbardun hwn am 2 flynedd yn olynol, ni ystyrir ei fod yn codi unrhyw bryderon o ran cyflenwi'r strategaeth CDLI.		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.		

## Maes Testun: Ffiniau Aneddiadau

Polisiâu CDLI perthnasol: KP3(B), EN1

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO6

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>Craidd</b> Nifer o anheddau a ganiateir yn flynyddol tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig nad ydynt yn boddhau polisiâu'r CDLI.	Nifer o anheddau a ganiateir nad ydynt yn unol â KP3(B)	Un caniatâd neu fwy nad yw'n boddhau polisiâu'r CDLI
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Dim ceisiadau wedi eu caniatáu tu allan i ffiniau aneddiadau nad ydynt yn bodloni polisi.	Dim ceisiadau wedi eu caniatáu tu allan i ffiniau aneddiadau nad ydynt yn bodloni polisi.	Dim ceisiadau wedi eu caniatáu tu allan i ffiniau aneddiadau nad ydynt yn bodloni polisi.
<b>Dadansoddiad</b>		
Yn ystod y 3ydd gyfnod monitro, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau y tu allan i ffin yr anheddiad nad oeddent yn bodloni polisi. Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd pedwar cais am ddatblygiad preswyl; sefydlwyd yr egwyddor ddatblygu ar gyfer dau trwy ganiatâd blaenorol neu ddyraniad CDLI, ac ystyriwyd bod y ddau arall yn cydymffurfio â pholisi ac yn gysylltiedig â throsi mewn cwrtil preswyl. O gofio hyn, ystyrir bod Polisi KP3(B) yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro		

## Maes Testun: Darpariaeth Llety Sipsiwn a Theithwyr

Polisiau CDLI perthnasol: H7

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S07

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cadw llygad ar safle Seawall Road a'i adolygu fel llety preswyl parhaol posibl i Sipsiwn a Theithwyr		Safle heb ei gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Safle yn dal i fod wedi'i gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf	Safle yn dal i fod wedi'i gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf	Safle yn dal i fod wedi'i gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf
<b>Dadansoddiad</b>		
<p>Cynhwyswyd y safle hwn fel dyraniad ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLI Adnau ym mis Medi 2013. Fodd bynnag, cafodd y safle ei ddileu o'r Cynllun yn Archwiliad y CDLI yn 2015 gan ei fod wedi'i leoli mewn Parth Risg Llifogydd C2 lle mae Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru yn rhwystro datblygiad hynod agored i niwed fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Cytunwyd yn Archwiliad y CDLI y byddai dangosydd yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Monitro i gadw'r safle dan adolygiad pe bai'r sefyllfa o ran risg llifogydd yn newid yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau y gellir parhau i ystyried y safle ynghyd â safleoedd eraill er mwyn bodloni'r angen am leiniau newydd i Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Mae statws y safle o ran risg llifogydd yn parhau yr un fath, ac mae'r safle yn dal i orwedd o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Cynhaliwyd Astudiaeth Ddichonolrwydd gan y Cyngor i ymchwilio i opsiynau i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd blaendraeth Rover Way ac Afon Rhymni. Mae'r Astudiaeth hon yn argymhell dewisiadau dylunio ar gyfer gwella'r amddiffynfeydd</p>		

llifogydd ar hyd y rhan hon o'r arfordir ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am gyllid grant i weithredu'r gwaith a argymhellir.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cymeradwyo'r cyllid ac mae'r Cyngor yn mynd allan i Dendr yn fuan er mwyn gweithredu'r gwaith. Rhagwelir y bydd y gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei gwblhau ddechrau 2020.

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr – Safleoedd parhaol

Polisiau CDLI perthnasol: H7

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO8

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Gwneir darpariaeth i ateb yr angen a nodwyd am lety parhaol i Sipsiwn a Theithwyr	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Cytuno ar drefniadau rheoli project yn cynnwys cynrychiolwyr a strwythur – Gorffennaf 2015</li><li>2. Cytuno ar fethodoleg i wneud chwiliad ac asesiad safle – Rhagfyr 2015</li><li>3. Gwneud asesiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau parhaol a thramwy yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 – Chwefror 2016</li><li>4. Gwneud chwiliad ac asesiad safle a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau – Gorffennaf 2016</li><li>5. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) sydd eu hangen i ateb y galw tymor byr am 43 llain erbyn Mai 2017</li><li>6. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant</li></ol>	Methiant i gwrdd â'r targedau hyn



	gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) a bennwyd i gwrdd â'r anghenion tymor hir am 65 o leiniau erbyn Mai 2021	
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
<p>Yn y Cabinet ym mis Ionawr 2016, sefydlwyd trefniadau rheoli projectau, gan gynnwys strwythur adrodd, sefydlu cynrychiolwyr, a chymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â chwilio ac asesu safleoedd. Yn ogystal cymeradwywyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.</p> <p>Nododd y Cabinet ym Medi 2016 fod cynnydd da wedi'i wneud wrth chwilio ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond cytunodd nad yw'r asesiad wedi'i gwblhau'n llawn eto, ac roedd angen clir i gynnal ymchwiliadau technegol manylach. Yn y Cabinet cytunwyd y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben, hyd nes y bo'r rhain wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Bu'r gwaith ar gynnal yr asesiadau technegol manylach hyn yn mynd yn ei flaen trwy gydol y</p>	<p>Cwblhawyd yr asesiadau technegol manwl erbyn hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r asesiadau a'r opsiynau o ran symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>	<p>Cwblhawyd yr asesiadau technegol manwl erbyn hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r asesiadau a'r opsiynau o ran symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>

<p>flwyddyn. Pan gwblheir yr asesiadau hyn, bydd y Cyngor yn ystyried y canfyddiadau ac yn pennu ffordd ymlaen.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>		
---	--	--

**Dadansoddiad**

Mae'r Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei rheoli ar y cyd gan Swyddogion Tai a Swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio. Goruchwylir gwaith y mae'r Grŵp yn ei wneud gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys uwch Swyddogion o'r Gwasanaeth Tai a Chynllunio ac Aelodau Cabinet perthnasol. Nod yr astudiaeth yw nodi'r angen am lety parhaol a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr yn y ddinas a nodi safleoedd i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys cwblhau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau (GTAA), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Mae hyn yn nodi angen llai am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau mewn GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 llain parhaol mae angen 48 yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf, o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Er mwyn cwrdd â'r angen hwn, gwnaed chwiliad cynhwysfawr ledled y ddinas am safleoedd addas i Sipsiwn a Theithwyr gan ddefnyddio meini prawf dewis safleoedd a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2016. Mae'r meini prawf dethol safle yn amlinellu'r meini prawf asesu o gwmpas tri phrif bennawd sy'n ymwneud ag argaeledd, addasrwydd a chyflawnadwyedd y safle. Mae ystyriaethau argaeledd yn cynnwys p'un a yw'r safle yn wirioneddol ar gael yn yr hirdymor ac nad oes unrhyw broblemau cyfreithiol. Mae ystyriaethau addasrwydd y safle yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyfyngiadau polisi a ffisegol, ac mae ystyriaethau cyflawnadwyedd yn ymwneud ag ystyriaethau cost (gan gynnwys unrhyw gostau

annormal) i sicrhau nad yw'n niweidio'r gallu i ddatblygu'r safle.

Hyd yma, gwnaed cynnydd da wrth ymgymryd â chwiliad dinas ar gyfer tir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a nododd y Cabinet ym mis Medi 2016 fod yr astudiaeth wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen clir i ymchwilio ymhellach i agweddau technegol a nodwyd yn y fethodoleg gytunedig. O ystyried bod y Cabinet hwn o'r farn y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben hyd nes y cynhaliwyd yr ymchwiliadau technegol manwl hyn, comisiynwyd ymchwiliadau technegol manwl, yn enwedig asesiadau risg llifogydd, i ganfod yn llawn faint o risg sydd ar hyn o bryd, ynghyd â'r cwmpas posib o fesurau lliniaru ac unrhyw faterion technegol perthnasol sy'n benodol i'r safle. Cynhaliwyd y gwaith hwn mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru ac roedd yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf o ran data perygl llifogydd.

Bellach, cwblhawyd yr asesiadau technegol manwl hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r asesiadau hyn a gwaith amddiffyn rhag llifogydd parhaus er mwyn pennu opsiynau ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted â phosib; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned. Gallaf gadarnhau bod ymrwymiad cadarn a llwyr yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

Bydd y cynnydd hwn yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr – Safleoedd Tramwy

Polisiâu CDLI perthnasol: H7

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO9

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
LLEOL Gwneir darpariaeth i ateb y galw a welwyd am lety tramwy i Sipsiwn a Theithwyr	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cytuno ar drefniadau rheoli project yn cynnwys cynrychiolwyr a strwythur – Gorffennaf 2015</li> <li>2. Cytuno ar fethodoleg i wneud chwiliad ac asesiad safle – Rhagfyr 2015</li> <li>3. Gwneud asesiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau parhaol a thramwy yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 – Chwe 2016</li> <li>4. Gwneud chwiliad ac asesiad safle a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau – Gorff 2016</li> <li>5. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) sydd eu hangen i ateb y galw tymor byr am 43 llain erbyn Mai 2017</li> <li>6. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) a</li> </ol>	Methiant i gwrdd â'r targedau hyn

	bennwyd i gwrdd â'r anghenion tymor hir am 65 o leiniau erbyn Mai 2021.	
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
<p>Yn y Cabinet ym mis Ionawr 2016, sefydlwyd trefniadau rheoli projectau, gan gynnwys strwythur adrodd, sefydlu cynrychiolwyr, a chymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â chwilio ac asesu safleoedd. Yn ogystal cymeradwywyd Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.</p> <p>Nododd y Cabinet ym Medi 2016 fod cynnydd da wedi'i wneud wrth chwilio ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond cytunodd nad yw'r aseiad wedi'i gwblhau'n llawn eto, ac roedd angen clir i gynnal ymchwiliadau technegol manylach. Yn y Cabinet cytunwyd y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben, hyd nes y bo'r rhain wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Bu'r gwaith ar gynnal yr aseidiadau technegol manylach hyn yn mynd yn ei flaen trwy gydol y flwyddyn. Pan gwblheir yr aseidiadau hyn, bydd y Cyngor yn ystyried y</p>	<p>Cwblhawyd yr aseidiadau technegol manwl erbyn hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r aseidiadau a'r opsiynau o ran symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r aseiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>	<p>Cwblhawyd yr aseidiadau technegol manwl erbyn hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r aseidiadau a'r opsiynau o ran symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r aseiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>

canfyddiadau ac yn pennu ffordd ymlaen.

Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.

Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

#### **Dadansoddiad**

Mae'r Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei rheoli ar y cyd gan Swyddogion Tai a Swyddogion y Gwasanaeth Cynllunio. Goruchwylir gwaith y mae'r Grŵp yn ei wneud gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys uwch Swyddogion o'r Gwasanaeth Tai a Chynllunio ac Aelodau Cabinet perthnasol. Nod yr astudiaeth yw nodi'r angen am lety parhaol a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr yn y ddinas a nodi safleoedd i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys cwblhau Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau (GTAA), a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Mae hyn yn nodi angen llai am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau mewn GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 llain parhaol mae angen 48 yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf, o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Er mwyn cwrdd â'r angen hwn, gwnaed chwiliad cynhwysfawr ledled y ddinas am safleoedd addas i Sipsiwn a Theithwyr gan ddefnyddio meini prawf dewis safleoedd a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2016. Mae'r meini prawf dethol safle yn amlinellu'r meini prawf asesu o gwmpas tri phrif bennawd sy'n ymwneud ag argaeledd, addasrwydd a chyflawnadwyedd y safle. Mae ystyriaethau argaeledd yn cynnwys p'un a yw'r safle yn wirioneddol ar gael yn yr hirdymor ac nad oes unrhyw broblemau cyfreithiol. Mae ystyriaethau addasrwydd y safle yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyfyngiadau polisi a ffisegol, ac mae ystyriaethau cyflawnadwyedd yn ymwneud ag ystyriaethau cost (gan gynnwys unrhyw gostau annormal) i sicrhau nad yw'n niweidio'r gallu i ddatblygu'r safle.

Hyd yma, gwnaed cynnydd da wrth ymgymryd â chwiliad dinas ar gyfer tir a allai fod

yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a nododd y Cabinet ym mis Medi 2016 fod yr astudiaeth wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen clir i ymchwilio ymhellach i agweddau technegol a nodwyd yn y fethodoleg gytunedig. O ystyried bod y Cabinet hwn o'r farn y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben hyd nes y cynhaliwyd yr ymchwiliadau technegol manwl hyn, comisiynwyd ymchwiliadau technegol manwl, yn enwedig asesiadau risg llifogydd, i ganfod yn llawn faint o risg sydd ar hyn o bryd, ynghyd â'r cwmpas posib o fesurau lliniaru ac unrhyw faterion technegol perthnasol sy'n benodol i'r safle. Cynhaliwyd y gwaith hwn mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru ac roedd yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf o ran data perygl llifogydd.

Bellach, cwblhawyd yr asesiadau technegol manwl hyn ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau canfyddiadau'r asesiadau hyn a gwaith amddiffyn rhag llifogydd parhaus er mwyn pennu opsiynau ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted â phosib; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned. Gallaf gadarnhau bod ymrwymiad cadarn a llwyr yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

Bydd y cynnydd hwn yn parhau i gael ei fonitro a'i adrodd mewn AMBau yn y dyfodol.

#### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr

Polisiau CDLI perthnasol: H7

Cyfeirnod dangosydd: OB2 SO10

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Y cyfanswm o leiniau Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer llety preswyl	Sicrhau bod y cyflenwad presennol o leiniau yn cael eu cynnal. (Os na fydd lleiniau ar gael bellach ceisir lleiniau amgen)	Unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ni fu unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro	Ni fu unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro	Ni fu unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro
<b>Dadansoddiad</b>		
Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau (GTAA) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016 yn nodi bod 80 o leiniau ar ddau safle sy'n eiddo i awdurdod lleol yn Shirenewton (59 o leiniau) a Rover Way (21 o leiniau). Yn ogystal â hyn mae pedwar safle preifat awdurdodedig gyda 22 o leiniau, yn rhoi cyfanswm o 92 o leiniau yn y Sir gyfan. Ni chafwyd unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro.		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.		



**Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol A Ardal Fenter Canol Caerdydd**

**Polisiâu CDLI perthnasol:** KP2

**Cyfeirnod dangosydd:** OB2 S011

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<p><b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol A – Ardal Fenter Canol Caerdydd</p>	<p>Darparu 2,150 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar JHLAS 2014 a bwriadau'r datblygwyr: 2016: 231 2018: 254 2020: 405 2022: 400 2024: 400 2026: 460</p>	<p>Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.</p>
<p><b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b></p>	<p><b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b></p>	<p><b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b></p>
<p>Ar 1af Ebrill 2017 nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Tai Strategol A.</p>	<p>Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Tai Strategol A</p>	<p>Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Tai Strategol A</p>
<p><b>Dadansoddiad</b></p>		

Ar 1af Ebrill 2019, nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Strategol A ac felly nid yw'r targed o 485 o unedau erbyn 2018 wedi'i fodloni. Mae sawl caniatâd cynllunio preswyl yn bodoli ar y safle hwn a chrynoir y rhain isod:

- 16/00504 - Old Imperial Buildings, Trade Street (102 o fflatiau wedi'u cwblhau)
- 17/00159 - Tir yn Dumballs Road (109 o fflatiau gyda chaniatâd ond heb gychwyn)
- 17/01672 - Crawshay Court, Curran Road (140 o fflatiau gyda chaniatâd ond heb gychwyn)
- 17/02404 - Cyn-Browning Jones & Morris, Dumballs Road (206 o fflatiau gyda chaniatâd ond heb gychwyn)
- 18/02634 - Plot J, Capital Quarter (307 o fflatiau gyda chaniatâd ond heb gychwyn).

Er y derbynnir bod rhywfaint o lithriad ar y safle hwn, mae'n amlwg oherwydd y nifer ac ystod o gynlluniau â chaniatâd a gyda 102 o anheddau wedi eu cwblhau erbyn 1af Ebrill 2019, ni ragwelir y bydd cyflenwi Safle Strategol A yn llithro tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r gwaith o gyflenwi'r safle hwn trwy fonitro blynyddol dilynol.

#### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol B – Gwaith Nwy, Ferry Road

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S012

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol B – Gwaith Nwy, Ferry Road.	Darparu 500 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar fwriadau'r datblygwyr: 2016: 0 2018: 80 2020: 140 2022: 170 2024: 110 2026: 0	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.
Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017	Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018	Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019
Yn unol â'r targed ar gyfer y dangosydd hwn, ar 1af Ebrill 2017, nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Strategol B.	Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol B.	Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol B.
Dadansoddiad		
Mae'r asiant ar gyfer y safle hwn wedi cynghori bod rhywfaint o oedi wedi bod wrth farchnata'r safle. Cafodd y safle ei farchnata ar ddiwedd 2016 ac mae disgwyl i waith adfer gael ei gwblhau erbyn canol 2018. Ar y sail hon, disgwylir y bydd y datblygiad yn cychwyn yn 2019/20, gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2020. Ni ragwelir y bydd unrhyw newid i'r cyfraddau cyflenwi wedi hynny.		

Er bod peth llithriad i'r targedau cyflenwi a nodir uchod bellach yn anochel, yn seiliedig ar ddeialog ddiweddar gyda'r asiant, ni ragwelir y bydd cyflenwi Safle Strategol B yn llithro tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r gwaith o gyflenwi'r safle hwn trwy fonitro blynyddol dilynol.

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol C Gogledd Orllewin Caerdydd

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S013

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn ar Safle Tai Strategol C – Gogledd Orllewin Caerdydd	Darparu 5,000 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar fwriadau'r datblygwyr: 2016: 135 2018: 624 2020: 1,060 2022: 1,060 2024: 1,060 2026: 1,060	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ar 1af Ebrill 2017 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol C.	Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol C.	Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol C.
<b>Dadansoddiad</b>		
Rhngwng 31ain Mawrth 2018 a 1af Ebrill 2019, cwblhawyd 128 o anheddau ar Safle Strategol C, gan ddod â'r nifer cyfanswm cyfunol o gwblhawyd ar y safle hyd yma i 167. Er bod hyn yn dal i fod yn brin o'r targed cronus o 759 erbyn 2018, ystyrir bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y safle hwn gyda nifer o geisiadau cynllunio a roddwyd (gan gynnwys ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl) a thua 70 o anheddau yn cael eu hadeiladu ar 1af Ebrill 2019.		

Ystyrir bod yr oedi cychwynnol yn adlewyrchu'n rhannol berchnogaeth tir/materion technegol cyfreithiol rhwng datblygwyr a thirfeddianwyr, a hefyd y cymhlethdod i sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor, fel y nodir yn y CDLI. Fodd bynnag, er gwaethaf yr oedi cychwynnol, gwnaed cynnydd sylweddol ers mabwysiadu'r CDLI.

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol D i'r Gogledd o Gyffordd 33

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S014

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn ar Safle Tai Strategol D – i'r Gogledd o Gyffordd 33	Darparu 2,000 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar fwriadau'r datblygwyr: 2016: 110 2018: 240 2020: 300 2022: 400 2024: 450 2026: 500	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ar 1af Ebrill 2017 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol D.	Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol D.	Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol D.
<b>Dadansoddiad</b>		
Ar 1af Ebrill 2019, nid oedd unrhyw dai wedi eu cwblhau ar y safle strategol hwn ac felly ni fodlonwyd y targed cyflenwi o 350 uned erbyn 2018, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.		
Fel gyda nifer o safleoedd strategol, ystyrir bod yr oedi cychwynnol yn adlewyrchu'n rhannol berchnogaeth tir/materion technegol cyfreithiol rhwng datblygwyr a thirfeddianwyr, a hefyd y cymhlethdod i sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau		

Adran 106 atodol sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor, fel y nodir yn y CDLI. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol ers mabwysiadu, caniatwyd cais cynllunio amlinellol i hyd at 1,500 o anheddau (14/00852) a chymeradwywyd cais Materion Wrth Gefn ar gyfer 374 o anheddau (18/00696).

### **Argymhellion**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.



## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol E i'r De o Creigiau

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S015

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn ar Safle Tai Strategol E – i'r De o Creigiau	Darparu 650 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronnus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar fwriadau'r datblygwyr: 2016: 150 2018: 300 2020: 200	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ar 1af Ebrill 2017 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol E	Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol E.	Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol E.
<b>Dadansoddiad</b>		
Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi'u cwblhau ar Safle Strategol E ac felly ni fodlonwyd y targed cyflenwi o 450 uned erbyn 2018, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Ni chyflwynwyd Ceisiadau Cynllunio eto i'r De o Creigiau; fodd bynnag, yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ar gyfer JHLAS Caerdydd, cadarnhaodd asiant y safle bod gwaith technegol yn parhau a bod cais yn cael ei dargedu yn y dyfodol agos. Ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd cyflenwi'r tir i'r De o Creigiau yn llithro y tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd ar y tir i'r De o Creigiau a bydd yn ymdrechu i brosesu unrhyw gais a ddaw i law yn effeithlon, gan rwystro oedi dianghenraid o ran cyflenwi'r safle		
<b>Argymhellion</b>		
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.		

## Maes Testun: Anheddau a Gwblhawyd ar Safle Strategol F Gogledd Ddwyrain Caerdydd

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Cyfeirnod dangosydd: OB2 S016

**Newidiadau Cyd-destunol:** Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun
<b>LLEOL</b> Cyfanswm anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn ar Safle Tai Strategol F – Gogledd Ddwyrain Caerdydd	Darparu 4,500 o anheddau dros weddill cyfnod y Cynllun ar y Safle Strategol hwn yn unol â'r cyfraddau cyflenwi cronus 2 flynedd a nodir isod. Cyfraddau cyflenwi disgwylidig yn seiliedig ar fwriadau'r datblygwyr: 2016: 180 2018: 1,197 2020: 808 2022: 808 2024: 808 2026: 699	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd
<b>Perfformiad AMB 1af 1af Ebrill 2016 i 31ain Mawrth 2017</b>	<b>Perfformiad 2il AMB 1af Ebrill 2017 i 31ain Mawrth 2018</b>	<b>Perfformiad 3ydd AMB 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019</b>
Ar 1af Ebrill 2017 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol F.	Ar 1af Ebrill 2018 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol F.	Ar 1af Ebrill 2019 nid oedd unrhyw anheddau wedi eu cwblhau ar Safle Tai Strategol F.
<b>Dadansoddiad</b>		
Er na fodlonwyd hyd yma y targed cyflenwi o 1,377 o unedau erbyn 2018 fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, mae 51 o anheddau wedi'u cwblhau ar dir oddi ar Cefn Mabley Road. Mae nifer o geisiadau wedi'u cymeradwyo a rhai byw ar y wefan, sydd wedi'u crynhoi isod:		
<ul style="list-style-type: none"> <li>14/02891 (Cais Amlinellol) ar gyfer hyd at 1,000 o anheddau</li> </ul>		

- 18/00012 (Materion Wrth Gefn) Cam 1A Plas Ty Draw ar gyfer 45 annedd - gyda chaniatâd cynllunio ac wrthi'n cael eu hadeiladu
- 18/02906 (Materion Wrth Gefn) Cam 1B ar gyfer 26 annedd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- 19/01113 (Materion Wrth Gefn) Cam 3 Parish Reach ar gyfer 271 o anheddau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.

